Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
33/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:
12/05/2022

# Gwerthusiad o Ddyfodol Byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2020 i 2022

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-204-8

**Gwerthusiad o Ddyfodol Byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2020 i 2022**

Awduron: Martin Jones, Brett Duggan a Joanne Davis

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000256812
E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

## Cynnwys


Rhestr o'r ffigurau ........................................................................................ 2

Rhestr o'r Tablau ........................................................................................... 2

Geirfa ……………………………………………………………………………………4

Crynodeb gweithredol...................................................................................... 5

1. Cyflwyniad ..................................................................................... 10

2. Methodoleg ..................................................................................... 15

3. Canfyddiadau'r arolwg ..................................................................... 19

4 Canfyddiadau o'r gwaith ymchwil ansoddol ............................................. 42

5 Data gweinyddol sy'n ymwneud ag ieithoedd rhyngwladol yn ystod y cyfnod 2014/15 i 2020/21 ........................................................................ 52

6 Casgliadau ac argymhellion ............................................................ 62

Atodiad A: Astudiaethau Achos .............................................................. 67

Atodiad B: Gwerthuso Dyfodol Byd-eang: holiadur ysgolion .................................. 74

Atodiad C: Gwerthusiad Dyfodol Byd-eang: canllaw cyfweliadau â rhanddeiliaid... 79

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1: Ymatebwyr i'r arolwg fesul rôl ........ 20
Ffigur 2: Ieithoedd a addysgir mewn ysgolion cynradd a ymatebodd ........ 22
Ffigur 3: Cyfran yr ysgolion uwchradd a ymatebodd sy'n addysgu Ffrangeg a Sbaeneg, fesul grŵp blwyddyn ........ 25
Ffigur 4: Profiadau dysgu iaith eraill: ........ 28
Ffigur 5: Gweithgareddau Dyfodol Byd-eang yr oedd ysgolion cynradd wedi ymgysylltu â nhw ........ 30
Ffigur 6: Effaith dybiedig Dyfodol byd-eang ymhlith ymatebwyr o ysgolion cynradd31
Ffigur 7: Effaith dybiedig Dyfodol byd-eang ymhlith ymatebwyr o ysgolion uwchradd ........ 32
Ffigur 8: A oes unrhyw fylchau yn y cymorth a ddarparir gan Ddyfodol byd-eang ar hyn o bryd? ........ 36
Ffigur 9: Ieithoedd Rhyngwladol fel rhan o CiG fesul cyfnod. ........ 39
Ffigur 10. Cofrestriadau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, 2002 i 2021 ........ 54

**Rhestr o'r Tablau**

Tabl 1a: Ymatebwyr i'r arolwg fesul rhanbarth ........ 20
Tabl 1b. Nifer yr ieithoedd a addysgir yn yr ysgolion cynradd a arolygwyd ........ 21
Tabl 2. Oriau a dreuliwyd yn addysgu IRh bob wythnos mewn ysgolion cynradd... 23
Tabl 3. Nifer yr ieithoedd a addysgir mewn ysgolion uwchradd ........ 24
Tabl 4. Ieithoedd a addysgir mewn ysgolion uwchradd, fesul grŵp blwyddyn ........ 24
Tabl 5. Amser a dreuliwyd yn addysgu IRh bob wythnos mewn ysgolion uwchradd ........ 26
Tabl 6: Cyfran (%) yr holl amser addysgu mewn ysgolion canol ac uwchradd wedi'i rannu yn ôl pwnc, 2019-20 ........ 27
Tabl 7. Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol, 2014/15 i 2020/21 ........ 53
Tabl 8. Cofrestriadau TGAU mewn pynciau anstatudol dethol yng Nghyfnod Allweddol 4 2020/21 ........ 54
Tabl 9. Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth, 2014/15, 2017/18 a 2020/21 ........ 55

Tabl 10. Canran y newid yn y cofrestriaddau TGAU fesul rhanbarth, 2014/15 i 2020/21 .......... 55
Tabl 11. Cofrestriadau TGAU fesul rhanbarth a rhyw .......... 57
Tabl 12. Newid canrannol mewn cofrestriadau TGAU fesul rhanbarth a rhyw, 2014/15 i 2020/21 .......... 58
Tabl 13. Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth a chymhwysedd i gael FSM, 2014/15, 2017/18 a 2020/21 .......... 60
Tabl 14. Cyfran y dysgwyr sy’n gymwys i gael FSM a chyfran y cofrestriadau iaith ymhlith dysgwyr FSM, 2014/15 a 2020/21 .......... 61

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AGA | Addysg Gychwynnol Athrawon |
| ALI | Awdurdod lleol |
| CA 1, 2, 3, 4 a 5 | Cyfnodau Allweddol 1, 2, 3, 4 a 5 |
| CARh | Consortia Addysg Rhanbarthol |
| CiG | Cwricwlwm i Gymru |
| CBGY | Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion |
| CWRE | Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgyblion |
| DB | Dyfodol Byd-eang |
| EAL | Saesneg fel iaith ychwanegol |
| FSM | Prydau ysgol am ddim |
| GCA | Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru |
| GLl | Grŵp Llywio |
| GwE | Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru |
| HSK | Hanyu Shuiping Kaoshi (Prawf Medrusrwydd Tsieineaidd) |
| ILlCh | Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu |
| IRh | Ieithoedd rhyngwladol |
| ITM | Ieithoedd tramor modern |
| Maes / MDPh | Maes dysgu a phrofiad |
| MATh | Mwy abl a thalentog |
| TELT | Athrawon yn Dysgu i Addysgu ieithoedd |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| UDA | Uwch dîm arwain |
| UKAS | Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig |
| Ysgol pob oed | Ysgol i ddysgwyr 3–16/19 oed |

## Crynodeb gweithredol

### Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau gwerthusiad ar raddfa fach o Ddyfodol Byd-eang 2020-2022, a gynhaliwyd gan Arad ar ran Llywodraeth Cymru.

   Roedd prif nodau'r gwerthusiad hwn fel a ganlyn:
   - Amcangyfrif darpariaeth bresennol ieithoedd rhyngwladol (IRh) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru;
   - Cyfuno'r dystiolaeth o Ddyfodol Byd-eang 2015-2020 a'i heffaith ar ysgolion, gan gynnig cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad o strategaeth 2020-2022;
   - Nodi sut y gall Dyfodol Byd-eang 2020-2022 addasu a chyd-fynd gyda'r cwricwlwm newydd;
   - Amlinellu'r camau nesaf ar gyfer Dyfodol Byd-eang.

### Methodoleg

2. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn manteisio ar y gwaith ymchwil a dadansoddi canlynol:
   - Arolwg ar gyfer arweinwyr ieithoedd rhyngwladol (IRh) mewn ysgolion uwchradd ac arweinwyr IRh mewn ysgolion cynradd, lle y cafwyd 106 o ymatebion wedi'u cwblhau ar draws Cymru;
   - 16 o gyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid o grŵp llywio Dyfodol Byd-eang;
   - Dau grŵp ffocws gydag aelodau grŵp llywio Dyfodol Byd-eang;
   - Cyfweliadau gydag arweinwyr IRh mewn pedair ysgol er mwyn datblygu astudiaethau achos;
   - Dadansoddiad o ddata Llywodraeth Cymru yn deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ynghylch y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth IRh a data ynghylch addysgu IRh o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY).

3. Mae'n bwysig cydnabod risg tuedd wrth ddethol ymhlith sampl yr ymarferwyr a lanwodd yr arolwg. Dosbarthwyd yr arolwg i'r holl ysgolion gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu lluosog. Fodd bynnag, efallai ei bod yn fwy tebygol bod ymarferwyr sydd wedi bod yn ymwneud fwyaf gyda gweithgareddau i hyrwyddo IRh wedi llenwi'r arolwg. Mae'r un peth yn wir am samplau'r ymarferwyr a'r rhanddeiliaid a ddewisodd gymryd rhan mewn gwaith ymchwil ansoddol. O'r herwydd, dylid ystyried sampl yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at y gwerthusiad fel sampl hwylustod a dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau.

**Prif ganfyddiadau**

4. Mae'r ymchwil wedi nodi cryfderau a gwendidau tybiedig yng nghynllun a darpariaeth Dyfodol Byd-eang dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ran ei nodau strategol o hyrwyddo a chynorthwyo IRh ar draws ysgolion yng Nghymru.

5. Teimlwyd bod y rhaglen wedi cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol IRh gwell i ymarferwyr, gan gynnig y cyfle iddynt fanteisio ar adnoddau a chymorth o ansawdd. Mae grŵp llywio Dyfodol Byd-eang yn ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a deialog ac ystyrir ei fod wedi llwyddo i gynorthwyo gwaith rhanbarthol a phartneriaethau ehangach i gynnal a hyrwyddo IRh. Mae'n ychwanegu gwerth hefyd mewn meysydd megis cymwysterau IRh newydd a sut y gellir integreiddio IRh yn y Cwricwlwm i Gymru (CiG) newydd.

6. Adroddodd rhanddeiliaid ac ysgolion am ystod eang o effeithiau cadarnhaol a gynigiwyd trwy gyfrwng Dyfodol Byd-eang mewn perthynas â'i brif nodau strategol ar gyfer 2020-22. O ran cynnig arweiniad clir, egwyddorion a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth er mwyn cynorthwyo amlieithrwydd mewn ysgolion, mae'r rhaglen wedi cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol ac mae wedi hyrwyddo ymddiriedaeth a phartneriaeth.

7. Adroddir bod cydlynwyr arweiniol IRh, ymarferwyr ac ysgolion yn gweithio'n dda ar lefel ranbarthol a lleol. Mae partneriaethau yn gynaliadwy ac yn cynorthwyo gweithgarwch cydweithredu ehangach o ran IRh rhwng consortia rhanbarthol.

8. Mae Dyfodol Byd-eang wedi cynorthwyo cynnydd yn ansawdd ac amlder gwaith rhanbarthol i hyrwyddo a darparu IRh ac mae wedi cynnig mwy o fynediad i arbenigedd mewn prifysgolion a sefydliadau ieithyddol. Mae hyn wedi golygu y bu modd creu a rhannu ymagweddau addysgeg ac arfer dysgu newydd, ac mae wedi rhoi hwb i hyder ymarferwyr trwy gyfrwng cyfleoedd dysgu proffesiynol.

9. Teimlwyd bod ansawdd yr adnoddau a baratowyd trwy gyfrwng y rhaglen wedi cyfrannu at gynorthwyo addysgu a dysgu rhagorol ym maes IRh mewn rhai ysgolion ar draws Cymru, sy'n un o nodau strategol eraill Dyfodol Byd-eang.

10. Mae Dyfodol Byd-eang wedi cynorthwyo twf o ran y cymorth ar gyfer ysgolion cynradd gan gonsortia rhanbarthol a phartneriaid IRh eraill, gan alluogi ymarferwyr a dysgwyr i ymgysylltu gydag IRh trwy gyfrwng gweithgareddau ac adnoddau newydd a ddatblygwyd. Mae'r cymorth hwn wedi cyfrannu at y nod strategol o gynorthwyo addysgu a dysgu IRh rhagorol.

11. Fodd bynnag, er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, mae rhanddeiliaid yn cydnabod na fu modd gwireddu nodau strategol y rhaglen yn llawn eto, yn enwedig o ran cynyddu nifer y dysgwyr ifanc sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector.

12. Roedd y grŵp llywio yn barnu bod dylanwad Dyfodol Byd-eang ar y materion systemig sy'n gysylltiedig gyda'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n dewis astudio IRh yn y cyfnod uwchradd, megis dewisiadau opsiynau cul a diffyg cyfleoedd i sicrhau dilyniant, wedi bod yn gyfyngedig. Er bod Dyfodol Byd-eang yn cynnig cymorth ac yn helpu i ddatblygu capasiti, nid yw'n rhoi gofynion ar ysgolion i ddarparu neu gynyddu'r ddarpariaeth IRh.

13. Mae dadansoddiad o ddata gweinyddol yn datgelu bod y gostyngiad a welwyd ers tro yn narpariaeth ITM a'r niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon, yn parhau. Mae nifer yr oriau sy'n cael eu treulio yn addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd a chanol wedi parhau i ostwng, gan adlewyrchu gostyngiad yn nifer yr athrawon sy'n addysgu ITM. Cyn cyhoeddi'r cynllun Dyfodol Byd-eang cyntaf, roedd cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd wedi gostwng 44 y cant rhwng 2002 a 2015. Gwelwyd gostyngiad pellach o 42 y cant rhwng 2015 a 2021.

14. Amlygodd rhanddeiliaid sialensiau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen a darpariaeth ehangach IRh yng Nghymru. Mae effaith lwyddiannus Dyfodol Byd-eang ar lefel gynradd yn amlygu'r diffyg cydlyniant o ran pontio a dilyniant ar gyfer dysgwyr IRh fel rhan o'r rhaglen. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn ymestyn cynnydd ac uchelgais dysgwyr a sgiliau estynedig ymarferwyr ar lefel gynradd ar hyn o bryd.

15. Adroddodd rhanddeiliaid am sialensiau parhaus ynghylch cyfle cyfartal, a gwelir bod dysgwyr mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol yn llai tebygol o astudio ieithoedd. Er bod Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer o ysgolion, ystyrir nad oes ganddi ddull gweithredu cyson a chydlynol tuag at ymgysylltu gyda'r holl ysgolion yng Nghymru.

16. Nid oedd rhanddeiliaid yn barnu bod y model presennol lle y darparir cyllid o un flwyddyn i'r llall ar gyfer Dyfodol Byd-eang yn caniatáu dull cynaliadwy er mwyn hyrwyddo a datblygu IRh yn unol â nodau'r rhaglen. Adroddir bod yr hyder i ddarparu IRh ymhlith athrawon cynradd yn her allweddol arall ac y bydd gofyn cael dull gweithredu mwy cydlynol ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys ymwreiddio IRh o fewn AGA er mwyn datblygu'r cynnydd a sicrhawyd.

17. Roedd rhanddeiliaid ac ymarferwyr o'r farn nad yw cymwysterau IRh yn addas i'r diben ar hyn o bryd a cheir pryder ynghylch cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr a gyrfaoedd sy'n gysylltiedig ag IRh. Mae grŵp llywio Dyfodol Byd-eang yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi sylw i hyn, trwy ailgynllunio TGAU IRh er mwyn adlewyrchu'r cwricwlwm newydd yn well.

18. Bu'r gwaith o fonitro a gwerthuso effaith Dyfodol Byd-eang yn anghyson ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg tystiolaeth gadarn ynghylch a yw'r rhaglen yn cyflawni ei phrif nodau. Barnwyd bod diffyg cylch gorchwyl ar gyfer Dyfodol Byd-eang yn amharu ar ei photensial i gynnig tryloywder, gwelliant parhaus a gweithgarwch rheoli prosiect effeithiol. Mae natur gynghorol y grŵp llywio wedi golygu bod ei rôl yn aml yn cael ei ystyried fel rôl rhannu gwybodaeth yn hytrach na rôl sy'n gyrru canlyniadau strategol.

19. Ystyrir bod y cwricwlwm newydd i Gymru yn 'gyfle enfawr i ymwreiddio IRh' ac i gynnig sylfaen er mwyn cynorthwyo mwy o weithgarwch i hyrwyddo ieithoedd a chynyddu'r niferoedd sy'n eu hastudio. Er hyn, bydd gofyn i ysgolion gael adnoddau a chymorth parhaus er mwyn cynnal effaith gadarnhaol Dyfodol Byd-eang a darparu IRh mewn ffordd lwyddiannus fel rhan o'r broses hon.

20. Ceir cyfleoedd i Lywodraeth Cymru sicrhau dull gweithredu integredig tuag at addysgu a dysgu IRh law yn llaw gyda Chymraeg a Saesneg yn y cwricwlwm newydd. Gallai Dyfodol Byd-eang diwygiedig fod yn rhan o weithgarwch cynllun dros y tymor hwy ar gyfer yr holl ieithoedd yn y cwricwlwm newydd, fel rhan o MDPh ILlCh, yn ogystal â chysylltu gydag amcanion Cymraeg 2050. Dylai'r broses hon gynnwys y cam o gynnwys cynrychiolwyr addysgu Cymraeg a Saesneg ac AGA yn y grŵp llywio a datblygu rôl Estyn sy'n ymwneud ag IRh.

    **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r grŵp llywio i gyd-greu rhaglen Dyfodol Byd-eang newydd, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth IRh fel rhan annatod o'r CiG newydd.

    **Argymhelliad 2:** Dylai iteriad nesaf Dyfodol Byd-eang gynnwys cylch gorchwyl clir a thargedau mesuradwy. Dylai hyn fod yn gysylltiedig ag

argymhelliad 8 i wella gweithgarwch monitro a gwerthuso.

**Argymhelliad 3:** Mae gwaith rhanbarthol wedi bod yn elfen lwyddiannus o Ddyfodol Byd-eang. Dylai'r rhaglen a fydd yn ei holynu ddatblygu'r dull gweithredu hwn, gan sicrhau y darparir adnoddau i gynnal a meithrin y partneriaethau sydd eisoes yn bodoli rhwng consortia rhanbarthol ac ysgolion.

**Argymhelliad 4:** Dylai'r rhaglen a fydd yn olynu Dyfodol Byd-eang ddatblygu'r gweithgarwch ar lefel gynradd, gan sicrhau gweithgareddau pontio wedi'u targedu a llwybrau dilyniant clir i'r cyfnod uwchradd.

**Argymhelliad 5:** Dylai iteriad nesaf Dyfodol Byd-eang geisio ymgysylltu â'r holl ysgolion ar draws Cymru er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran y cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fanteisio ar gymorth.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynllun cyllido dros y tymor hwy ar gyfer strategaethau IRh yn y dyfodol, fel rhan o ddull gweithredu ar draws Cymru gyfan tuag at gynorthwyo IRh.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr AGA a rhanddeiliaid allweddol eraill i ystyried integreiddio IRh mewn addysg i athrawon.

**Argymhelliad 8:** Yn gysylltiedig gyda'r gwaith o ddatblygu cylch gorchwyl newydd, dylai Llywodraeth Cymru a'r grŵp llywio weithredu prosesau monitro a gwerthuso newydd er mwyn dangos effaith a chynnydd y strategaeth IRh newydd.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws maes dysgu ieithoedd er mwyn datblygu dull gweithredu mwy integredig tuag at gynorthwyo addysgu a dysgu Cymraeg, Saesneg ac IRh.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn baratoi adroddiad thematig sy'n canolbwyntio ar IRh dan y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd, er mwyn cynorthwyo arfer da a chanlyniadau dymunol. Byddai hyn yn cynnig gwaelodlin ar gyfer datblygu darpariaeth IRh bellach, yn gysylltiedig â Chymraeg a Saesneg.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o Ddyfodol Byd-eang, gan osod hyn yng nghyd-destun gweithgarwch i ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.

**Dyfodol Byd-eang**

1.2 Dyfodol Byd-eang yw cynllun Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r holl ddysgwyr i fod yn ddinasyddion byd-eang, sy'n gallu siarad gyda phobl mewn ieithoedd eraill, gan werthfawrogi eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill ac sy'n gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd yma yng Nghymru ac ar draws y byd.

1.3 Lansiwyd cam cyntaf rhaglen Dyfodol Byd-eang yn 2015 a daeth i ben ym mis Mawrth 2020.[1] Cytunodd y Gweinidog gyhoeddi Cynllun Dyfodol Byd-eang diwygiedig ym mis Ebrill 2020. Roedd y cynllun ar gyfer yr ail gam hwn yn amlinellu'r cymorth a fyddai ar gael yn y dyfodol ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol (IRh) yng Nghymru, ac roedd yn cynnwys camau gweithredu a thargedau dros gyfnod o ddwy flynedd tan fis Mawrth 2022.[2] Datblygwyd y nodau strategol diwygiedig ar gyfer cynllun 2020-2022 gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â grŵp llywio Dyfodol Byd-eang a chawsant eu diffinio fel a ganlyn:

- *Cynyddu nifer y dysgwyr ifanc sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector*
- *Darparu canllawiau clir, egwyddorion a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth ar gyfer pob sector er mwyn cynorthwyo amlieithrwydd mewn ysgolion yng Nghymru*
- *Cynorthwyo gweithgarwch addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol rhagorol ar gyfer pob dysgwr.*

1.4 Un gwahaniaeth amlwg rhwng rhaglen gyntaf Dyfodol Byd-eang a'r cynllun dilynol ar gyfer 2020-2022 oedd y ffaith y gwaredwyd y nod penodol o gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio ITM ar lefel TGAU a lefel-A, ac mewn

[1] Dyfodol Byd-eang, Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020
[2] Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2020 i 2022

addysg uwch. Barnwyd bod y nodau newydd yn cyd-fynd yn well gyda gofynion fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sy'n mynnu bod IRh yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd.

1.5 Ceir camau gweithredu strategol i gynorthwyo'r tri nod yng nghynllun Dyfodol Byd-eang. Cyflawnir y rhain gan bartneriaid Dyfodol Byd-eang a Llywodraeth Cymru ac fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo pob ysgol wrth iddynt bontio i drefniadau'r cwricwlwm newydd. Mae'r cynllun yn cynorthwyo athrawon i gyflwyno iaith neu ieithoedd ychwanegol o fewn cyd-destun dwyieithog ac mae'n ceisio cynnig y cyfle gorau i ddysgwyr feithrin sgiliau cyfathrebu mewn IRh o addysg gynradd i addysg uwchradd.

1.6 Mae grŵp llywio yn cynorthwyo ac yn goruchwylio darpariaeth Dyfodol Byd-eang. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Y Cyngor Prydeinig
- Goethe-Institut
- Institut Français
- Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen
- Adran Addysg Conswliaeth yr Eidal
- Sefydliad Confucius
- Llwybrau at Ieithoedd Cymru
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Cysylltiadau Ysgolion Rhyngwladol Cyngor Dinas Caerdydd
- BBC Cymru
- Gyrfa Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Prifysgol Caerdydd

Mynychir cyfarfodydd y grŵp llywio gan arweinwyr IRh mewn consortia addysg rhanbarthol, Prifysgol Caerdydd (fel arweinydd y rhaglen Mentora Myfyrwyr) a chynrychiolwyr o Estyn hefyd.

1.7 Dan y cwricwlwm presennol, mae astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 3 yn orfodol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae fframwaith anstatudol yn ei le, sy'n golygu bod rhai ysgolion cynradd yn cynnig iaith arall yn ychwanegol i Gymraeg a Saesneg, ond nid yw eraill yn gwneud hynny. Gall ysgolion cynradd ar draws Cymru gysylltu ag arweinwyr IRh yn eu consortia addysg rhanbarthol i fanteisio ar y cymorth angenrheidiol os hoffent gyflwyno ieithoedd yn eu hysgol.

### Cyd-destun: dysgu ieithoedd tramor modern yn 2015

1.8 Mae'n bwysig nodi'r cyd-destun ar gyfer cynllun gwreiddiol Dyfodol Byd-eang. Rhwng 2002 a 2015, roedd cofrestriadau TGAU ITM wedi gostwng 44 y cant. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn cofrestriadau Ffrangeg ac Almaeneg, sef yr ieithoedd tramor a addysgwyd fwyaf eang yng Nghymru. Mewn cyferbyniad â'r tueddiadau a welwyd gyda Ffrangeg ac Almaeneg, roedd cofrestriadau TGAU Sbaeneg wedi cynyddu'n raddol (er bod y niferoedd cychwynnol wedi bod yn isel), gan godi'n uwch na nifer y cofrestriadau Almaeneg. Nid oedd gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn dysgu ieithoedd tramor modern yn ffenomenon a welwyd yng Nghymru yn unig. Gwelwyd gostyngiad tebyg (39 y cant) mewn cofrestriadau ITM yn Lloegr yn ystod yr un cyfnod. Gwelwyd darlun tebyg gyda chofrestriadau lefel-A: rhwng 2006 a 2015, roedd cofrestriadau ITM lefel-A yng Nghymru wedi gostwng 38 y cant.

1.9 Nod Dyfodol Byd-eang oedd mabwysiadu dull gweithredu dros y tymor hir er mwyn mynd i'r afael â sialensiau yr oeddent wedi hen ymsefydlu mewn perthynas â dysgu ieithoedd. Byddai'n ceisio gwneud hyn trwy ddatblygu capasiti ar draws y gweithlu i addysgu ITM o'r cyfnod cynradd i fyny, gan wella'r cyfleoedd i ymarferwyr rwydweithio a rhannu arfer a chodi proffil dysgu ieithoedd.

### Cwricwlwm i Gymru

1.10 Mae fframwaith newydd Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo dull gweithredu integredig tuag at ddysgu ac addysgu. Mae'n annog cydweithio a chynllunio ac addysgu traws-ddisgyblaethol er mwyn galluogi dysgwyr i ffurfio cysylltiadau

rhwng y gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd) a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd. Mae'r cwricwlwm newydd yn dwyn dysgu ieithoedd ynghyd mewn un Maes ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh).[3] Ei nod yw cynorthwyo dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan, gan alluogi dysgwyr i feithrin gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg ac IRh, yn ogystal â llenyddiaeth.

1.11 Y weledigaeth ar gyfer ILlCh yw y dylid 'archwilio gwahanol ieithoedd mewn perthynas â'i gilydd, a hefyd, sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu'.

1.12 Mae'r canllawiau yn nodi y dylai ysgolion annog dysgwyr i drosglwyddo'r 'hyn y maent wedi'i ddysgu am y ffordd y mae ieithoedd yn gweithio mewn un iaith i ddysgu a defnyddio ieithoedd eraill. Bwriedir i'r dull gweithredu *amlieithog* a *lluosieithog* hwn danio chwilfrydedd a brwdfrydedd dysgwyr, gan gynnig sylfaen gadarn iddynt er mwyn cael diddordeb trwy gydol eu hoes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd'. Nod dysgu a phrofiad yn ILlCh yw galluogi dysgwyr i gyfathrebu mewn ffordd effeithiol gan ddefnyddio Cymraeg, Saesneg ac IRh.

1.13 Fel rhan o Faes Dysgu ILlCh, ceir gofyniad y bydd pob dysgwr yn dysgu o leiaf un Iaith Ryngwladol o'u cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn nodi disgrifiadau dysgu er mwyn cynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer a deall cynnydd mewn perthynas ag IRh.

### Am y gwerthusiad

1.14 Roedd prif nodau'r gwerthusiad hwn fel a ganlyn:

- Amcangyfrif darpariaeth bresennol ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru;
- Cyfuno'r dystiolaeth o Ddyfodol Byd-eang 2015-2020 a'i heffaith ar ysgolion, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad o strategaeth 2020-2022;

[3] Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Nodi sut y gall Dyfodol Byd-eang 2020-2022 addasu a chyd-fynd gyda'r cwricwlwm newydd;
- Amlinellu'r camau nesaf ar gyfer Dyfodol Byd-eang.

1.15 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil ynghylch yr effaith y mae ymyriadau Dyfodol Byd-eang wedi'u cael ar ysgolion, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Byd-eang a phartneriaid wrth iddynt geisio datblygu'r gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn.

1.16 Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad. Mae Adran 3 yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r arolwg ysgolion; mae Adran 4 yn cynnig dadansoddiad o'r data a gasglwyd yn ystod cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a chyfweliadau dilynol gydag ysgolion. Mae Adran 5 yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion. Mae Atodiad A yn cynnwys pedair astudiaeth achos ynghylch gweithgarwch ymgysylltu ysgolion gyda Dyfodol Byd-eang. Caiff holiadur yr arolwg ei gynnwys yn Atodiad B.

### Cydnabyddiaeth

1.17 Hoffai'r tîm ymchwil fynegi ein diolch i'r holl rai a neilltuodd eu hamser a'u hymdrechion i gyfrannu at y gwerthusiad. Gwerthfawrogwyd yr holl gyfraniadau – trwy gyfrwng cyfweliadau a chyflwyniadau ysgrifenedig – yn fawr. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i gynrychiolwyr ysgolion a gyfrannodd at arolwg y gwerthusiad ac i gyfweliadau yn ystod cyfnod arbennig o brysur. Yn ogystal, hoffem ddiolch i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac i aelodau grŵp llywio Dyfodol Byd-eang am eu cydweithrediad a'u cymorth trwy gydol y broses.

# 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig manylion am y fethodoleg ymchwil. Mae hyn yn cynnwys manylion y gwaith maes a gynhaliwyd, y dull gweithredu tuag at ddadansoddi, y sialensiau a gododd a chyfyngiadau'r fethodoleg.

**Arolwg ysgolion**

2.2 Cynlluniwyd holiadur gan dîm ymchwil Arad, a chafwyd mewnbwn gan gydweithwyr consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru am y materion a'r cwestiynau dan sylw. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am ddarpariaeth bresennol IRh mewn ysgolion; gweithgarwch ymgysylltu ysgolion gyda Dyfodol Byd-eang a thybiaethau ynghylch effaith y rhaglen; dulliau gweithredu ysgolion wrth gynllunio IRh fel rhan o'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gellir gweld testun yr arolwg yn Atodiad B.

**Dosbarthu'r arolwg**

2.3 Anfonwyd neges e-bost at benaethiaid pob ysgol yng Nghymru, a oedd yn cynnwys dolen i arolwg electronig (dull cyfrifiad), a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu Llywodraeth Cymru, a gyda chymorth timau cyfathrebu awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Anelwyd yr arolwg at benaethiaid IRh mewn ysgolion uwchradd ac arweinwyr IRh mewn ysgolion cynradd. Lansiwyd yr arolwg ar 1 Hydref ac fe'i caewyd ar 12 Tachwedd 2021.

2.4 Monitrwyd sampl yr ymatebion yn barhaus, ac anfonwyd negeseuon atgoffa wedi'u targedu i ysgolion er mwyn sicrhau cynrychiolaeth dda fesul sector a rhanbarth. Targedwyd ysgolion cynradd yn arbennig yn ystod pythefnos olaf cyfnod yr arolwg, er mwyn rhoi hwb i'r niferoedd mewn awdurdodau lleol lle y cafwyd niferoedd isel iawn o ymatebion. Gwnaethpwyd hyn trwy ddewis sampl ar hap yn ardaloedd 8 awdurdod lleol.

### Sampl yr arolwg

2.5 At ei gilydd, **cafwyd 106 o arolygon wedi'u cwblhau**.[4] Roedd y sampl hwn yn cynnwys y grwpiau canlynol o ymatebwyr sy'n cael eu dadansoddi ar wahân yn yr adroddiad hwn:

- **55 o ymatebion** gan athrawon neu arweinwyr uwch mewn **ysgolion uwchradd**;
- **47 o ymatebion** gan athrawon neu arweinwyr uwch mewn **ysgolion cynradd**;
- **4 o ymatebion** gan athrawon neu arweinwyr uwch mewn **ysgolion pob oed (3-16/3-18)**.

### Dadansoddi'r arolwg

2.6 Dadansoddir ymatebion cynrychiolwyr ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd i'r arolwg ar wahân yn yr adroddiad hwn. Caiff ymatebion gan ysgolion pob oed eu cynnwys yn y data am ysgolion uwchradd. Nid yw'r data wedi'i bwysoli.

2.7 Mae'r dull a ddewiswyd a lefel y diffyg ymateb yn golygu na ellir ystyried sampl yr ymatebwyr fel sampl tebygolrwydd, felly ni ellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth.

### Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid

2.8 Cynhaliodd Arad gyfweliadau ansoddol gydag ystod eang o gynrychiolwyr o grŵp llywio Dyfodol Byd-eang. Datblygwyd canllaw cyfweld lled-strwythuredig er mwyn cynorthwyo'r dull gweithredu hwn (gweler Atodiad C). Roedd y canllaw yn cynnwys cwestiynau am gynllun a darpariaeth y rhaglen, ei heffaith ar ysgolion ac ar y system addysg ehangach yng Nghymru, rhwystrau wrth gyflawni nodau'r rhaglen a chyfleoedd yn y dyfodol i gynorthwyo IRh. Cynhaliwyd 16 o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn ystod yr astudiaeth.

[4] Roedd y sampl hwn o 106 yn cynnwys ymatebion gan 106 o ysgolion unigol, h.y. ni chafwyd achosion lle y cafwyd mwy nag un ymateb gan ymarferwyr o'r un ysgol yn y sampl.

2.9 Rhoddodd Arad ddau gyflwyniad ar ffurf gweithdy i grŵp llywio Dyfodol Byd-eang. Roedd y cyntaf, ym mis Hydref 2021, yn cyflwyno canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg ac roedd yr ail, ym mis Ionawr 2022, yn cynnig crynodeb o'r adroddiad terfynol drafft. Roedd yr adborth a gafwyd ar y canfyddiadau a'r safbwyntiau ychwanegol a fynegwyd gan aelodau'r grŵp yn ystod y gweithdai hyn wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r adroddiad terfynol hwn.

2.10 Yn ogystal, cynhaliodd Arad gyfweliadau gydag arweinwyr IRh mewn pedair ysgol i ddatblygu astudiaethau achos.

**Dadansoddiad ansoddol**

2.11 Mabwysiadwyd dull gweithredu thematig er mwyn dadansoddi'r data ansoddol a gasglwyd. Mae hyn yn caniatáu dadansoddiad strwythuredig o'r sylwadau, gan adlewyrchu'r themâu a nodwyd mewn canllawiau trafod. Roedd y prif feysydd ymchwilio fel a ganlyn: cynllun strategol a darpariaeth y rhaglen; effaith ac effeithiolrwydd Dyfodol Byd-eang; a dewisiadau ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol. I ddechrau, adolygwyd tystiolaeth yn ystod sesiwn friffio a oedd yn cynnwys yr ymchwilwyr a gynhaliodd y cyfweliadau. Roedd hyn yn galluogi'r ymchwilwyr i gytuno ar y prif themâu a oedd yn dod i'r amlwg, gan gyfrannu at waith dadansoddi dilynol.

**Dadansoddi data gweinyddol**

2.12 Manteisiodd y tîm gwerthuso ar ddata cyhoeddedig gan CYBLD trwy StatsCymru er mwyn archwilio tueddiadau o ran cofrestriadau TGAU IRh yn ystod cyfnod rhaglen Dyfodol Byd-eang. Mae CYBLD yn gasgliad electronig o ddata lefel disgybl ac ysgol a ddarperir gan yr holl ysgolion a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys adolygu data o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY), sy'n casglu gwybodaeth am y gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth am y gweithlu mewn ysgolion gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn uniongyrchol, gan gynnwys gwybodaeth am y pynciau y mae athrawon yn eu haddysgu, rolau athrawon a'r amser a gaiff ei dreulio yn addysgu pynciau.

Gwnaethpwyd cais pwrpasol am ddata gan y tîm Ystadegau Ysgolion yn is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru am ddata ynghylch: cofrestriadau TGAU yn ôl iaith a rhanbarth; cofrestriadau TGAU yn ôl cymhwysedd dysgwyr i gael prydau ysgol am ddim (FSM); nifer yr athrawon sy'n addysgu IRh (mewn ysgolion uwchradd); nifer yr oriau IRh a addysgwyd gan athrawon uwchradd. Dadansoddwyd y data hwn ac mae wedi cael ei gynnwys yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

**Cyfyngiadau a sialensiau methodolegol**

2.13 Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o'r sialensiau y daethpwyd ar eu traws yn ystod y gwaith maes.

2.14 Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod pandemig COVID-19, ac fe allai hyn fod wedi cael effaith ar allu ysgolion i ymgysylltu â'r gwaith ymchwil, oherwydd yr amhariad parhaus ar ysgolion a'r pwysau ar amser athrawon.

2.15 Ceir risg tuedd dethol ymhlith sampl yr ymarferwyr yr ymgysylltwyd â nhw. Er y dosbarthwyd yr arolwg i ymarferwyr yn uniongyrchol trwy sianelau cyfathrebu fel cylchlythyr Dysg, roedd yr arolwg yn dibynnu ar athrawon yn ei ddosbarthu i arweinwyr IRh yn fewnol hefyd. Mae'n bwysig ystyried y gallai rhai penaethiaid fod wedi bod yn fwy tebygol o wneud hynny pe bai eu hysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch Dyfodol Byd-eang. Am y rheswm hwn, dylid ystyried sampl yr ymarferwyr fel sampl hwylustod, a dylid cofio hyn wrth ddehongli'r canlyniadau. Er y cyfwelwyd ysgolion o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r wybodaeth a gasglwyd gan ysgolion: mae'n dangos profiadau'r ysgolion hynny ac ni ellir ystyried ei fod yn cynrychioli profiadau na safbwyntiau ysgolion yn fwy cyffredinol.

# 3. Canfyddiadau'r arolwg

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg ysgolion a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref 2021. Strwythurwyd yr holiadur (gweler Atodiad A) fel a ganlyn:

- Cwestiynau proffilio;
- Darpariaeth bresennol IRh a phrofiadau dysgu iaith;
- Ymgysylltiad gyda Dyfodol Byd-eang a'i heffaith dybiedig;
- Cynllunio IRh fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

**Proffil yr ymatebwyr**


*Ymatebwyr i'r arolwg fesul math o ysgol*

3.2 Cafwyd ymateb da gan ysgolion uwchradd i'r arolwg. Cafwyd ymatebion gan 55 o ysgolion uwchradd, sy'n cyfateb gyda dros 30 y cant o'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru. Cynrychiolwyd cyfran lawer llai o ysgolion cynradd: 47, sy'n cyfateb â 4 y cant o ysgolion cynradd yn unig.

*Ymatebwyr i'r arolwg fesul rôl*

3.3 Nododd mwyafrif y rhai a ymatebodd o ysgolion uwchradd (50 o 55) eu bod yn 'bennaeth ieithoedd rhyngwladol' yn eu hysgol, gan ddatgelu bod yr arolwg wedi cyrraedd y prif gynulleidfa darged yn y sector uwchradd yn rhan fwyaf yr achosion. Yn achos ysgolion cynradd, roedd rolau ymatebwyr yn fwy cymysg, gan adlewyrchu'r ffordd amrywiol y caiff cyfrifoldeb cyffredinol dros IRh ei neilltuo. Nododd dros hanner yr ymatebwyr (26 o 47) eu bod yn bennaeth neu'n arweinydd uwch, o'i chymharu gydag ychydig dros un o bob tri a nododd mai nhw yw'r arweinydd IRh yn eu hysgol.

**Ffigur 1: Ymatebwyr i’r arolwg fesul rôl**




N=106; Ffynhonnell: Arad

*Ymatebwyr i’r arolwg fesul rôl*

3.4 Fel y gellir gweld yn Nhabl 1a, cafwyd set gymharol gytbwys o ymatebion gan ysgolion uwchradd fesul rhanbarth. Gwelwyd mwy o gynrychiolaeth gan ysgolion cynradd yng Ngogledd Cymru ac yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Ni chaiff ysgolion pob oed eu cynnwys yn y tabl isod oherwydd niferoedd bychain yr ymatebion a gafwyd.

**Tabl 1a: Ymatebwyr i’r arolwg fesul rhanbarth**

| | Ymatebwyr i’r arolwg o ysgolion uwchradd | Ymatebwyr i’r arolwg o ysgolion cynradd |
|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 14 | 16 |
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | 11 | 15 |
| **Canol De Cymru** | 13 | 6 |
| **De Ddwyrain Cymru** | 16 | 8 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthusiad Dyfodol Byd-eang

**Y ddarpariaeth ieithoedd rhyngwladol bresennol**

*Ysgolion cynradd*

3.5 Adroddodd ysgolion cynradd a lanwodd yr arolwg eu bod yn addysgu amrediad o ieithoedd. Adroddodd 11 o 47 ysgol nad ydynt yn addysgu iaith ryngwladol ar hyn o bryd. Mae dros hanner yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg (25 o 47) yn addysgu un iaith ryngwladol. Mae ychydig yn llai nag un o bob pump o'r ysgolion a ymatebodd yn addysgu dwy iaith ac adroddodd tair ysgol eu bod yn addysgu tair IRh.


**Tabl 1b. Nifer yr ieithoedd a addysgir yn yr ysgolion cynradd a arolygwyd**

| Nifer yr ieithoedd a addysgir (ysgolion cynradd) | Ysgolion |
|---|---|
| 0 | 11 |
| 1 | 25 |
| 2 | 8 |
| 3 | 3 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthusiad Dyfodol Byd-eang

3.6 Gofynnwyd i ysgolion cynradd nodi pa IRh y maent yn eu haddysgu ar hyn o bryd. Ffrangeg oedd yr iaith fwyaf gyffredin a addysgir (mewn ychydig dros hanner yr ysgolion cynradd a ymatebodd, neu 24 o 47 ysgol). Addysgwyd Sbaeneg mewn 17 ysgol. Addysgwyd Almaeneg, Eidaleg a Mandarin mewn niferoedd llai o ysgolion. Nododd rhai ysgolion eu bod wedi cyflwyno plant i ieithoedd cymunedol, gan gynnwys Pwyleg a Japaneg.

**Ffigur 2: Ieithoedd a addysgir mewn ysgolion cynradd a ymatebodd**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang

3.7 Darparodd ysgolion cynradd ddata am y grwpiau blwyddyn lle y caiff IRh eu haddysgu. Pan fo ysgolion cynradd yn addysgu IRh, mewn sawl achos, mae'r ddarpariaeth yn ymestyn o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6. O ystyried sampl bach yr ysgolion cynradd a oedd wedi llenwi'r arolwg, rhaid bod yn ofalus iawn wrth ystyried y data, fodd bynnag mae'n ymddangos bod ysgolion yn cyflwyno ieithoedd i ddysgwyr iau:

- Mae 13 o 24 ysgol sy'n addysgu Ffrangeg yn cyflwyno'r iaith i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen;
- Mae 10 o 17 ysgol sy'n addysgu Sbaeneg yn cynnig yr iaith i ddysgwyr yn ystod blynyddoedd 3 a 4.

*Oriau a dreuliwyd yn addysgu IRh*

3.8 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg nodi faint o amser y maent yn ei dreulio yn addysgu IRh yn eu hysgol bob wythnos. Rydym yn cydnabod yr anawsterau y mae athrawon cynradd yn eu cael wrth roi ateb manwl i'r cwestiwn hwn am sawl rheswm: yn gyntaf, nododd ysgolion bod addysgu IRh yn aml yn cael ei wasgaru ar draws y cwricwlwm, ac yn cael ei gynnwys fel rhan o bynciau ehangach sy'n gallu ei gwneud yn anodd amcangyfrif cyfanswm yr amser a gaiff ei dreulio yn addysgu IRh; nododd ysgolion eraill hefyd nad oes gan IRh le ar yr amserlen wythnosol, ond y cânt eu haddysgu mewn blociau ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn ysgol; yn olaf, nododd ysgolion nad ydynt yn cyfrifo'r amser

a gaiff ei dreulio ar ddefnyddio IRh achlysurol (a Chymraeg achlysurol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg). Fodd bynnag, roedd nifer o ysgolion wedi darparu data a oedd yn dynodi cyfanswm yr amser y maent yn ei dreulio yn addysgu IRh yn y Cyfnod Sylfaen ac ym Mlynyddoedd 3-6.

**Tabl 2. Oriau a dreuliwyd yn addysgu IRh bob wythnos mewn ysgolion cynradd**

| | Nifer yr ysgolion sy'n addysgu IRh yn y cyfnod / y flwyddyn canlynol: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfnod Sylfaen** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Blwyddyn 6** |
| **0 awr** | 4 | 6 | 6 | 3 | 4 |
| **0.5 awr** | 14 | 10 | 11 | 13 | 14 |
| **1 awr** | 3 | 11 | 10 | 11 | 11 |
| **1.5 awr** | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **2 awr** | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm ymatebion** | 23 | 30 | 30 | 30 | 32 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang

3.9 Ar sail y data a ddarparwyd, mae ysgolion yn treulio 40-45 munud yr wythnos ar gyfartaledd yn addysgu IRh ym Mlwyddyn 5 ac ym Mlwyddyn 6. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn seiliedig ar ddata a adroddwyd gan nifer gyfyngedig o ysgolion ac mae'n dynodi'r sefyllfa yn yr ysgolion hynny. Nid oes modd cyffredinoli'r data hwn i'r sefyllfa gyffredinol ar draws Cymru.

*Ysgolion uwchradd*

3.10 Mae 24 o'r 59 o ysgolion uwchradd a phob oed a ymatebodd yn cynnig un iaith ryngwladol. Yn rhan fwyaf yr achosion, Ffrangeg yw'r iaith hon. Mae tua hanner (30) yr ysgolion a lanwodd yr arolwg yn addysgu dwy IRh. Mewn 25 o'r 30 o ysgolion hyn lle yr addysgir dwy iaith, yr ieithoedd yw Ffrangeg a Sbaeneg.

**Tabl 3. Nifer yr ieithoedd a addysgir yn yr ysgolion uwchradd a ymatebodd**

| Nifer yr ieithoedd a addysgir (ysgolion uwchradd ac ysgolion 3-16/3-18) | Ysgolion |
|---|---|
| 1 | 24 |
| 2 | 29 |
| 3 | 4 |
| 4 | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthusiad Dyfodol Byd-eang

3.11 Gofynnwyd i ysgolion uwchradd ddarparu data am yr ieithoedd a addysgir ym Mlwyddyn 7, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9 ac ar lefel TGAU a lefel-A. Cyflwynir y data a ddarparwyd gan 59 ysgol (55 uwchradd a 4 ysgol pob oed) isod.


**Tabl 4. Ieithoedd a addysgir yn yr ysgolion uwchradd a arolygwyd, fesul grŵp blwyddyn**

| Darpariaeth IRh cyfredol (ysgolion uwchradd ac ysgolion 3-16/ 3-18) | Bl 7 | Bl 8 | Bl 9 | TGAU | Lefel-A |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 52 | 48 | 50 | 52 | 27 |
| Sbaeneg | 14 | 23 | 28 | 36 | 14 |
| Almaeneg | 1 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| Eidaleg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mandarin | 4 | 4 | 2 | 1 | 0 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang

3.12 Mae data o’r arolwg yn dangos bod cyfran yr ysgolion uwchradd sy’n addysgu Ffrangeg a Sbaeneg yn tueddu i godi tan lefel TGAU, yna bydd yn gostwng ar gyfer lefel-A. Mae dros 90 y cant o ysgolion uwchradd yn addysgu Ffrangeg ar lefel TGAU ond mae’r gyfran hon yn gostwng i dan 50 y cant ar gyfer lefel-A. Gwelir patrwm tebyg gyda Sbaeneg.

**Ffigur 3: Cyfran yr ysgolion uwchradd a ymatebodd sy'n addysgu Ffrangeg a Sbaeneg, fesul grŵp blwyddyn**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthusiad Dyfodol Byd-eang n= 52, Ffrangeg, N=37, Sbaeneg

*Ieithoedd rhyngwladol eraill mewn ysgolion uwchradd*

3.13 Roedd ieithoedd eraill a amlygwyd gan ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys ieithoedd cymunedol, a anogir mewn nifer o ysgolion, a chynigir y cyfle i ddysgwyr sefyll TGAU yn eu mamiaith. Nododd sawl ysgol uwchradd bod ganddynt nifer o ddysgwyr sy'n astudio TGAU mewn iaith gymunedol, ac adroddodd un ysgol:

> '*Cynigir cyfle i ddisgyblion EAL (Saesneg fel Iaith Ychwanegol) sefyll TGAU yn eu mamiaith, pan fydd ar gael. Mae ein carfan EAL yn cynnwys siaradwyr Arabeg, Bwlgareg, Portiwgaleg, Pwyleg, Rwmaneg, Twrceg, Bengaleg, Sbaeneg, Rwsieg ar hyn o bryd.'* (Ymatebydd o ysgol uwchradd i'r arolwg)

3.14 Mae llwybr pellach, a adroddwyd gan un ysgol uwchradd, yn cynnwys Mandarin. Addysgir yr iaith ar lefel TGAU (Blynyddoedd 10 ac 11) ar ôl ysgol mewn cydweithrediad â Sefydliad Confucius. Caiff medrusrwydd cyfranogwyr ei raddio trwy gyfrwng system brofi Hanyu Shuiping Kaoshi (HSK), a chaiff ei asesu'n allanol trwy brifysgol.

*Oriau a dreuliwyd yn addysgu IRh mewn ysgolion uwchradd*

3.15 Yn ogystal, holwyd ymatebwyr o ysgolion uwchradd faint o amser a gaiff ei dreulio yn eu hysgol bob wythnos / bob pythefnos yn addysgu IRh, gan ddibynnu ar amserlen yr ysgol. Roedd yr arolwg yn holi ysgolion am yr oriau addysgu ym Mlwyddyn 7 ac ym Mlwyddyn 8. Mae tabl 5 yn dangos bod mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn adrodd eu bod yn treulio rhwng 1.5 a 2 awr yn addysgu IRh yn Mlynyddoedd 7 ac 8.

**Tabl 5. Amser a dreuliwyd yn addysgu IRh bob wythnos mewn ysgolion uwchradd**

| | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 |
|---|---|---|
| **1 awr** | 8 | 10 |
| **1.5 awr** | 31 | 26 |
| **2 awr** | 16 | 16 |
| **2.5 awr** | 0 | 1 |
| **3 awr** | 3 | 5 |
| **Cyfanswm ymatebion** | 58 | 58 |

Ffynhonnell: Arolwg gwerthusiad Dyfodol Byd-eang n=58, Ysgolion Uwchradd

3.16 Mae'n ddiddorol gosod hyn yng nghyd-destun data o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY), a ddadansoddwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

3.17 Roedd nifer yr oriau a dreuliwyd yn addysgu ITM mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed wedi gostwng 4.9 y cant rhwng 2019 a 2020. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer yr athrawon a oedd yn addysgu ITM yn ystod yr un cyfnod, o 830 i 760.

3.18 Mae CBGY yn galluogi dadansoddiad o'r holl amser addysgu mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed fesul pwnc. Mae hyn yn cynnig dirnadaeth o amser y cwricwlwm a gaiff ei dreulio ar wahanol bynciau. Yn 2020, treuliwyd 3.8 y cant o'r holl amser addysgu ar ITM, gostyngiad bach er 2019. Roedd yr amser a dreuliwyd yn addysgu ITM yn 2020 yn cyfateb â'r amser a dreuliwyd ar hanes. At ddibenion cymharu, mae hyn ychydig iawn yn uwch na chyfanswm yr amser a dreuliwyd yn addysgu addysg grefyddol (3.7 y cant). Mae'n is na chyfanswm yr amser a dreuliwyd yn addysgu dylunio a thechnoleg (4.7 y cant).

3.19 Mae'r data ar gyfer ITM yn cynnwys pob iaith, gan gynnwys Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Mandarin, Arabeg, Bengaleg, Portiwgaleg, Wrdw ac ITM Eraill. Yn ystod 2020, treuliwyd 14.8 y cant o'r amser addysgu y Gwyddorau, sy'n cynnwys disgyblaethau lluosog hefyd (ond yn wahanol i ITM, sy'n bwnc craidd yn y cwricwlwm) mewn ysgolion canol ac uwchradd.

**Tabl 6: Cyfran (%) yr holl amser addysgu mewn ysgolion canol ac uwchradd wedi'i rannu yn ôl pwnc, 2019-20**


| Pwnc | 2019 (%) | 2020 (%) |
|---|---|---|
| Celf | 3.6 | 3.6 |
| Bioleg | 1.5 | 1.6 |
| Astudiaethau Busnes | 1.2 | 1.3 |
| Cemeg | 1.5 | 1.5 |
| Dylunio a Thechnoleg | 5.0 | 4.7 |
| Drama/Theatr | 1.9 | 1.9 |
| Peirianneg | 0.5 | 0.5 |
| Saesneg | 12.8 | 12.9 |
| Daearyddiaeth | 3.6 | 3.5 |
| Hanes | 3.8 | 3.8 |
| Technoleg Gwybodaeth | 3.6 | 3.5 |
| Mathemateg | 13.4 | 13.4 |
| Ieithoedd Tramor Modern | 3.9 | 3.8 |
| Cerddoriaeth | 2.4 | 2.3 |
| Dyniaethau eraill | 1.0 | 1.3 |
| Pwnc Arall | 2.8 | 2.8 |
| Addysg Bersonol a Chymdeithasol | 0.9 | 1.0 |
| Addysg Gorfforol | 6.6 | 6.6 |
| Ffiseg | 1.4 | 1.4 |
| Addysg Grefyddol | 3.8 | 3.7 |
| Gwyddoniaeth | 10.1 | 10.3 |
| Gwyddorau Cymdeithasol | 1.5 | 1.5 |
| Pynciau Galwedigaethol | 2.8 | 2.8 |
| Bagloriaeth Gymreig | 3.1 | 2.9 |
| Cymraeg Iaith Gyntaf | 5.1 | 5.1 |
| Cymraeg Ail Iaith | 2.1 | 2.2 |
| **Cyfanswm** | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

*Profiadau dysgu ieithoedd eraill*

3.20 Holwyd ymatebwyr i'r arolwg a yw eu hysgol yn cynnig unrhyw brofiadau dysgu iaith eraill, gan gynnwys clybiau iaith, partneriaethau gydag ysgolion rhyngwladol neu deithiau. Nododd mwyafrif clir o ysgolion uwchradd (46 o 57) eu bod, a nododd ychydig dan hanner yr ysgolion cynradd (19 o 46) eu bod.

**Ffigur 4: Profiadau dysgu iaith eraill**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang n= 46, Ysgolion Cynradd, N=57, Ysgolion Uwchradd,

3.21 Rhoddodd ymatebwyr enghreifftiau o ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau a gynhelir (neu a gynhaliwyd yn flaenorol) yn eu hysgolion, gan gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu ag IRh. Cyn y pandemig, roedd nifer o ysgolion yn trefnu teithiau rhyngwladol i Ffrainc, yr Almaen a Sbaen, yr oeddent weithiau yn seiliedig ar gysylltiadau gyda threfi gefeillio neu'n cael eu cynorthwyo gan sefydliadau megis British Council, Goethe Institut ac Institut Francais. Ni fu modd cynnal teithiau rhyngwladol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r ysgolion dan sylw wedi mynegi dymuniad i ailgychwyn yr ymweliadau hyn pan fydd hyn yn bosibl. Nododd nifer fach o ysgolion eu bod wedi trefnu bod dysgwyr yn cyfathrebu gyda ffrindiau gohebol rhyngwladol mewn ysgolion partner.

3.22 Adroddodd nifer o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn ymwneud â phrosiectau Erasmus+, gan gyfeirio at gysylltiadau gydag ysgolion ar draws Ewrop sy'n ceisio

hyrwyddo dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill. Adroddodd un ysgol am ddiddordeb cynyddol mewn astudio Mandarin,


> ‘mae gennym statws Ystafell Ddosbarth Confucius ac rydym wedi cynnal teithiau i Tsieina gyda chymorth Sefydliad Confucius. Rydym yn cynnig Mandarin fel gweithgarwch allgyrsiol hefyd. Mae rhai myfyrwyr wedi mynd ymlaen i gofrestru ar gyfer arholiadau a’u sefyll yn llwyddiannus.’

3.23 Adroddodd rhai ysgolion eu bod yn cynnal clybiau iaith ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio. Arweinir y rhain gan athrawon er y cyfeiriodd sawl ysgol at weithio gyda chynorthwywyr iaith tramor o brifysgolion lleol. Rhoddwyd enghreifftiau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhoddodd ysgolion enghreifftiau o weithgareddau y maent yn eu darparu fel rhan o’r Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd; soniodd ymatebwyr i’r arolwg am siaradwyr gwadd sydd wedi dod allan i’r ysgol i siarad am ieithoedd mewn gwasanaethau ac mewn gwersi hefyd. Cyfeiriodd ysgolion at y cysylltiadau cadarnhaol a ffurfiwyd gyda ‘sefydliadau’ iaith sy’n rhan o grŵp llywio Dyfodol Byd-eang. Roedd y gweithgareddau eraill yr adroddwyd amdanynt yn cynnwys gwylio ffilmiau tramor a chystadlu mewn cystadlaethau iaith cenedlaethol.

**Ymgysylltu gyda Dyfodol Byd-eang a’i heffaith dybiedig**

3.24 Gofynnwyd i ymatebwyr i’r arolwg nodi a oedd eu hysgol wedi ymgysylltu gyda nifer o weithgareddau a gefnogwyd gan raglen Dyfodol Byd-eang. Nid yw’n peri syndod bod ysgolion uwchradd wedi adrodd am lefelau ymgysylltu uwch gyda bron pob math o weithgarwch. Adroddodd cyfrannau uchel o ysgolion uwchradd eu bod wedi cael cyswllt gyda phrosiect mentora myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (41 o 59 ysgol) a Llwybrau Cymru (31 o 59 ysgol).

**Ffigur 5: Gweithgareddau Dyfodol Byd-eang yr oedd ysgolion cynradd ac uwchradd wedi ymgysylltu â nhw**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang N= 46, Ysgolion Cynradd, N=59, Ysgolion Uwchradd,

3.25 Nododd un o bob tair ysgol gynradd (14 o 46) eu bod wedi ymgysylltu gyda gweithgareddau/gweithdai dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag IRh. Adroddodd un o bob pump (9 o 46) eu bod wedi ymgysylltu â rhwydweithiau newydd a rhannu adnoddau digidol, ac amlinellir manteision y gweithgareddau hyn isod. Er hyn, mae data o'r arolwg yn dynodi lefelau ymgysylltu cymharol isel gan ysgolion cynradd gyda gweithgareddau eraill Dyfodol Byd-eang. Er mai sampl bach yw hwn, mae'r data yn dynodi bod angen rhoi mwy o ffocws ar sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o ac yn cael y cyfle i fanteisio ar ystod ehangaf y cymorth sydd yn ei le.

3.26 Rhoddodd rhai ymatebwyr i'r arolwg wybodaeth ychwanegol am ymgysylltu gyda gweithgareddau Dyfodol Byd-eang. Roedd sawl un wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol iawn am effaith y rhaglen Mentora Myfyrwyr, a ddisgrifiwyd gan un ysgol uwchradd fel rhaglen sy'n darparu '*cymorth rhagorol*'. Yn ogystal, nododd ysgolion bod '*gwaith ac ymroddiad y rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig [â'r rhaglen mentora] wedi cymell ein dysgwyr.*'


3.27 Nododd ysgol uwchradd arall eu bod wedi datblygu partneriaethau mwy cynaliadwy gyda'u prifysgol leol o ganlyniad i'r rhaglen mentora, gan arwain at

drefnu gweithdai ac anerchiadau gyrfaoedd. Nododd yr arweinydd IRh yn yr ysgol hon bod hyn wedi ‘*ein galluogi i gynnal niferoedd da sy’n astudio TGAU Ffrangeg yn wyneb y dirywiad presennol ar lefel genedlaethol.’*

3.28 Adroddodd sawl ysgol arall eu bod wedi mynychu gweithdai a gweithgareddau CPD a drefnwyd gan y rhwydwaith rhanbarthol, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd tymhorol gyda phenaethiaid adrannau IRh. Adroddodd nifer fach o ysgolion cynradd eu bod wedi manteisio ar adnoddau gan y Brifysgol Agored er mwyn cynorthwyo eu gweithgarwch addysgu Sbaeneg.


3.29 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r sector cynradd ac uwchradd yn cytuno eu bod yn deall nodau Dyfodol Byd-eang (20 o 24 ysgol gynradd a 45 o 51 ysgol uwchradd). Roedd tua hanner yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymwybodol o ‘arfer da a ddarperir trwy Dyfodol Byd-eang mewn ysgolion/rhanbarthau eraill’ (14 o 24 ysgol gynradd a 31 o 51 ysgol uwchradd). Roedd cyfran uwch o ysgolion cynradd yn cytuno bod Dyfodol Byd-eang wedi gwella sgiliau staff i gynorthwyo IRh, o’i chymharu gydag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd 14 o 24 ysgol yn cytuno bod y rhaglen wedi gwella sgiliau staff o’i chymharu gyda llai na hanner mewn ysgolion uwchradd (20 o 51).

**Ffigur 6: Effaith dybiedig Dyfodol Byd-eang ymhlith ymatebwyr o ysgolion cynradd**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang n= 24, ysgolion cynradd

**Ffigur 7: Effaith dybiedig Dyfodol Byd-eang ymhlith ymatebwyr o ysgolion uwchradd**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang n=51, ysgolion uwchradd

3.30 Roedd cyfran uwch o ymatebwyr i'r arolwg o ysgolion cynradd yn cytuno bod Dyfodol Byd-eang wedi 'gwella proffil IRh ar lefel ysgol gyfan' o'i chymharu gydag ymatebwyr o ysgolion uwchradd (roedd 16 o 24 ysgol gynradd yn cytuno gyda'r datganiad hwn, o'i gymharu gyda llai na hanner yr ymatebwyr o ysgolion uwchradd). Yn ogystal, roedd rhanddeiliaid wedi mynegi safbwyntiau tebyg ynghylch effaith gadarnhaol y rhaglen ar yr ysgolion cynradd yr oedd wedi llwyddo i'w cyrraedd. Nodir manylion pellach am hyn yn adran 4.

3.31 Roedd hyn yn wir hefyd gydag ymatebion i'r datganiad 'Mae Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth IRh yn fy ysgol' lle'r oedd cyfran uwch o ysgolion cynradd yn cytuno o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (15 o blith 24 ysgol gynradd, o'i chymharu gydag 20 o blith 51 ysgol uwchradd).

3.32 Rhoddodd ymatebwyr i'r arolwg amrediad o ymatebion ansoddol a oedd yn dynodi lle'r oedd Dyfodol Byd-eang wedi gweithio orau ac wedi sicrhau'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol. I ysgolion cynradd, bu'r cyfle i weithio gydag ysgolion eraill yn arbennig o fuddiol. Mae hyn wedi caniatáu iddynt greu a rhannu amrediad o adnoddau er mwyn cynorthwyo dysgu IRh, yn aml ar y cyd ag

ysgolion uwchradd, mentoriaid, a gweithwyr iaith proffesiynol. Nododd un ymatebydd o ysgol gynradd,

> 'cynhaliwyd cyfarfodydd lle y mae ymarferwyr ysgol arweiniol yn rhannu profiadau a syniadau sy'n hwyluso cyflwyno a gwella addysgu IRh i gymuned ehangach' ac amlygodd un arall y 'cyfle i gael cymorth dilynol'. Nododd ysgol gynradd arall yr 'adnoddau sy'n cynorthwyo tasgau ymarferol a chreadigol i ddysgwyr.'

3.33 I ysgolion uwchradd, y cyfleoedd rhwydweithio sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng Dyfodol Byd-eang fu'r elfen fwyaf gwerthfawr wrth gynorthwyo athrawon IRh i gyfnewid arfer da gyda dulliau addysgeg a hyrwyddo ieithoedd yn ehangach. Gwerthfawrogwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol hefyd. Yn ogystal, nododd sawl ysgol uwchradd yr effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen yn ei chael wrth ysbrydoli dysgwyr gyda'r cynllun mentora myfyrwyr, a amlygwyd fel nodwedd allweddol o hyn unwaith eto.

> 'Mae digwyddiadau lle y mae staff neu ddisgyblion yn cymryd rhan bersonol wastad yn cynnig cyfleoedd gwych i feithrin sgiliau, casglu a chyfnewid syniadau, cysylltu gyda chydweithwyr eraill a chymell staff a disgyblion, e.e. mewn ysgolion i ddisgyblion (Mentora/PLA ac ati) neu weithdai/ cynadleddau i staff.' Ymatebydd o ysgol uwchradd

3.34 Mae Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith gadarnhaol wrth gynorthwyo gweithgareddau pontio rhwng rhai ysgolion cynradd ac uwchradd fel rhan o'r dull rhwydweithio hwn. Adroddodd sawl ysgol gynradd am fanteision gweithgareddau pontio, wrth i fyfyrwyr mewn ysgolion uwchradd lleol gynorthwyo clybiau iaith ac athrawon yn darparu adnoddau IRh i gynorthwyo gweithgareddau pontio. Adroddodd Arweinydd IRh mewn ysgol uwchradd eu bod wedi hyrwyddo cwrs dysgu proffesiynol y Brifysgol Agored i athrawon cynradd yn eu clwstwr a bod '*Dyfodol Byd-eang wedi caniatáu i ni wneud mwy gydag ysgolion cynradd, gan ysgogi mwy o ddilyniant ac ymdrech.'*

3.35 I ysgolion eraill fodd bynnag, mae'r amser sydd ar gael i gynllunio gweithgareddau, effaith pandemig COVID a diffyg ymwybyddiaeth barhaus o'r adnoddau a'r partneriaethau sydd ar gael wedi cyfyngu effaith Dyfodol Byd-eang ar ddarpariaeth IRh. Nododd sawl ysgol uwchradd bod COVID wedi cael effaith negyddol ar eu hamser a'u gallu i ymgysylltu â'r rhaglen. Nododd eraill, er bod Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith gadarnhaol ar rai o'u dysgwyr sy'n ymgysylltu, mai ychydig iawn fu'r effaith ar y niferoedd ehangach sy'n dewis IRh.

Nododd un, '*ni fu fawr iawn o effaith (hyd yn hyn!) ar y rhai y maent eisoes wedi dadrithio ac nad ydynt yn gweld gwerth IRh.'* Amlygodd un arall bod diffyg cymorth gan arweinwyr uwch yn golygu y byddai'r effaith '*wastad yn gyfyngedig ar lefel ysgol gyfan'.*

> 'Ni fu unrhyw newid o ran y ddarpariaeth ieithoedd rhyngwladol yn fy ysgol dros y bum mlynedd ddiwethaf. Mae ein niferoedd yn fach yn gyson ar ôl CA3 ac rydw i wedi cael gwybod yn ddiweddar na fydd hyn yn gallu parhau os ydym yn mynd i barhau i'w cynnig yn CA4 a CA5.' Ymatebydd o ysgol uwchradd

3.36 Roedd cyfran ychydig yn uwch o ysgolion cynradd yn cytuno hefyd bod 'Dyfodol Byd-eang wedi rhoi adnoddau gwell i'm hysgol er mwyn hyrwyddo dysgu iaith' o'i chymharu gydag ymatebion gan ysgolion uwchradd. Roedd ysgolion cynradd wedi rhoi ymatebion ansoddol pellach i ddangos sut y mae'r adnoddau hyn yn cynorthwyo arfer addysgu effeithiol. Er enghraifft, roedd un ysgol gynradd wedi cael cyllid Dyfodol Byd-eang ychwanegol er mwyn paratoi adnoddau Ffrangeg gan gynnwys gweithgareddau, fideos, ac ymarfer geirfa ar PowerPoint ar gyfer athrawon o'r grŵp clwstwr. Nodir manylion pellach y dull hwn yn astudiaeth achos 2 yn Atodiad A.

3.37 Nododd ysgol gynradd arall ei bod wedi cael anogaeth a syniadau ynghylch sut i gyflwyno ieithoedd mewn addysg gorfforol a chelf trwy adnoddau a chyngor a ddarperir gan eu harweinydd IRh CARh. Bellach, mae'r ysgol yn rhan o grŵp o ysgolion cynradd sydd wedi gweithio gyda'r consortiwm i ddatblygu 'pecyn cychwyn arni' i ysgolion cynradd sy'n dechrau cynllunio eu darpariaeth IRh ac sy'n chwilio am syniadau ac adnoddau. Rhoddir manylion pellach am y dull hwn yn astudiaeth achos 4 yn Atodiad A.

3.38 Yn ogystal, roedd sawl ymatebydd o ysgol uwchradd wedi mynegi sylwadau ychwanegol i gefnogi eu safbwyntiau cadarnhaol am yr adnoddau a'r partneriaethau a ddarperir trwy raglen Dyfodol Byd-eang. I un ymatebydd o ysgol uwchradd, mae'r rhaglen wedi:

> 'helpu i wella proffil ITM yn yr ysgol. Rydym wedi cael awr ychwanegol bob pythefnos ar gyfer yr holl ddosbarthiadau ym mlwyddyn 9 gan bod UDA yn cydnabod manteision dysgu iaith.'

3.39 Amlygodd ysgol uwchradd arall y manteision i ddysgwyr, '*mae'r rhai sydd wedi ymgysylltu â digwyddiadau Dyfodol Byd-eang wedi ymateb mewn ffordd*

*gadarnhaol, ac i rai, mae wedi cryfhau eu penderfyniad i barhau gydag ITM ar lefel TGAU.'*

3.40 Roedd adnoddau gan Goethe Institut 'wedi cynnig cymorth ac adnoddau ymarferol iawn am fanteision astudio Almaeneg. Roeddent yn canolbwyntio ar bontio, ymweliadau ysgol ym mlwyddyn 9, cysylltiad gyda gyrfaoedd, adnoddau da er mwyn trefnu dosbarthiadau ychwanegol yn yr ysgol, helpu athrawon i werthu'r pwnc.' (Arweinydd IRh, gweler Astudiaeth Achos 4). Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cytuno gyda'r datganiad, 'Rydw i'n deall effaith gweithgareddau DB a gweithgarwch dysgu ieithoedd rhyngwladol ehangach ar fy nysgwyr'. Roedd 19 allan o 24 ysgol gynradd a 36 allan o 51 ysgol uwchradd yn cytuno bod '*DB wedi arwain at bartneriaethau newydd rhwng fy ysgol ac eraill er mwyn cynorthwyo dysgu iaith a gwella profiadau dysgwyr.'*


3.41 Ychwanegodd rhai ymatebwyr sylwadau ansoddol pellach i esbonio eu safbwyntiau. I'r rhai yr oeddent wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol am gyfleoedd dysgu proffesiynol a gweithgareddau Dyfodol Byd-eang, roedd ymwybyddiaeth gref o botensial y rhaglen er mwyn cynorthwyo'u Darpariaeth IRh. Nododd un ymatebydd o ysgol uwchradd y '*gweithgorau/gweithdai a'r cynadleddau rhagorol, gan ddarparu neu arwain at adnoddau a gwybodaeth ymarferol ac sy'n berthnasol yn syth.'* Ychwanegodd ymatebydd o ysgol gynradd bod ymgysylltu gyda Dyfodol Byd-eang wedi '*darparu llawer iawn o gymorth ymarferol ac adnoddau er mwyn ein cynorthwyo i gynnig ieithoedd rhyngwladol.'*

3.42 Fodd bynnag, fel y mae'r arolwg yn dangos, nid yw lleiafrif o ysgolion yn cytuno bod Dyfodol Byd-eang wedi cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol na wedi rhannu arfer da er mwyn cynorthwyo eu darpariaeth, ac nid oedd eraill yn cytuno nac yn anghytuno. Mae hyn yn awgrymu na ddeellir Dyfodol Byd-eang a'r cymorth y mae'n gallu ei ddarparu ym mhob ysgol ar draws Cymru, fel y dangosir mewn rhannau eraill o'r ymatebion i'r arolwg ac fel yr adroddwyd gan randdeiliaid yn adran 4.

3.43 Nododd un ysgol uwchradd, '*nid ydym wedi ymgysylltu mewn gwirionedd, ac mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn a oedd ar gael a'r amser i ymchwilio,'* Nododd ysgol uwchradd arall:

‘Byddwn yn croesawu rhwydwaith dealltwriaeth gwell ynghylch lle y mae’r arfer da ar draws Cymru, gan bod yr amser y gallaf ei gael i gael fy rhyddhau ar gyfer ymweliadau yn fy nghyfyngu.’

**Ffigur 8: A oes unrhyw fylchau yn y cymorth a ddarperir gan Ddyfodol Byd-eang ar hyn o bryd?**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang N= 23, ysgolion cynradd, N=50, ysgolion uwchradd

3.44 Roedd mwyafrif yr ysgolion cynradd ac uwchradd a ymatebodd wedi ateb ‘ddim yn gwybod’ i’r cwestiwn ynghylch a oes unrhyw fylchau o ran y cymorth a ddarperir gan Ddyfodol Byd-eang ar hyn o bryd. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu nad yw ysgolion yn siŵr am y mathau o gymorth y gallent fod yn ddefnyddiol neu mae’n dynodi diffyg dealltwriaeth o nodau ac amcanion y rhaglen.

3.45 I’r rhai a atebodd ‘oes’, roedd rhai wedi cynnig awgrymiadau pellach er mwyn rhoi sylw i’r bylchau presennol yng nghymorth Dyfodol Byd-eang. Amlinellodd dau ymatebydd o ysgol uwchradd yr angen am gymorth pellach er mwyn integreiddio IRh yn y cwricwlwm newydd e.e. cymorth a fyddai’n eu galluogi i ddatblygu eu cynlluniau gwaith eu hunain. Roedd un ysgol uwchradd yn galw am gymorth pellach er mwyn datblygu partneriaethau rhyngwladol ac roedd un arall yn dymuno i Ddyfodol Byd-eang roi sylw i’r diffyg ffocws tybiedig ar yrfaoedd ac IRh. Roedd ambell i ysgol, cynradd ac uwchradd, yn dymuno cael cymorth pellach ar gyfer adnoddau dysgu IRh ac roedd un ysgol uwchradd wedi cyfeirio at ddiwygio cymwysterau.

> 'Adnoddau wedi'u graddio yn ôl oed er mwyn datblygu dull addysgu ar draws yr ysgol. Hyfforddiant i athrawon nad ydynt yn arweinwyr iaith yn y cynradd – datblygu agwedd a hyder athrawon y mae angen iddynt addysgu (IRh) yn yr ystafell ddosbarth.' **Ymatebydd o ysgol gynradd (cyfieithiad)**

> 'Cwrs TGAU sy'n cynnwys mwy o bwyslais ar ddefnyddio iaith yn y byd go iawn a meithrin rhuglder a chywirdeb gyda strwythurau pwysig (yn debyg i TGAU Ail Iaith Cymraeg). Byddai isafswm cenedlaethol o ran yr amser a gaiff ei neilltuo i ieithoedd rhyngwladol (a Chymraeg Ail Iaith) mewn cwricwlwm wythnosol/pythefnosol o gymorth. Byddai hyn yn annog ysgolion i flaenoriaethu dysgu 2il iaith fel medr bwysig i'n myfyrwyr sy'n byw mewn byd sy'n gynyddol gysylltiedig.' Ymatebydd o ysgol uwchradd

3.46 Gofynnwyd i ysgolion a arolygwyd i nodi'r 'prif sialensiau wrth hyrwyddo a chynyddu dysgu ieithoedd rhyngwladol' yn eu hysgolion. Cafwyd ymateb ansoddol gan un ar bymtheg ysgol gynradd. Mae'r ymatebion isod yn cysylltu gyda rhai o'r safbwyntiau a amlinellwyd gan randdeiliaid mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn ynghylch materion systemig y mae addysgu a dysgu IRh yn eu hwynebu yng Nghymru.

3.47 Yr her fwyaf gyffredin yr adroddwyd amdani oedd amser, wrth i ymatebwyr amlygu eu diffyg gallu a'u diffyg cyfle i gynllunio ar gyfer integreiddio IRh yn y cwricwlwm. Diffyg gwybodaeth am iaith gan ymarferwyr oedd yr her allweddol arall i ymatebwyr o ysgolion cynradd. Hwn oedd un o'r prif feysydd y mae Dyfodol Byd-eang wedi canolbwyntio arno, ac fel y dangosir mewn adrannau eraill, bu effaith gadarnhaol ar gyfer rhai staff addysgu a'u sgiliau. Yn ogystal, mae'n amlwg bod gofyn gwneud mwy o gynnydd er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar yr hyder a'r gallu i ddarparu IRh ar lefel gynradd.

> '(Yr her) yw amser. Mae amser i gynnwys yr holl faterion yn gyfyngedig ac mae'n hawdd iawn gwthio iaith ryngwladol i un ochr pan fydd galwadau eraill yn cael blaenoriaeth. [Yn ogystal] diffyg gallu a hyder yr holl staff i gynnig gwersi mewn gwahanol ieithoedd.' **Ymatebydd o ysgol gynradd (cyfieithiad)**

3.48 Rhoddodd 43 o ysgolion uwchradd ymateb ansoddol i'r cwestiwn am y prif sialensiau wrth hyrwyddo a chynyddu dysgu IRh yn eu hysgol. Y prif her a nodwyd gan ymatebwyr yw'r cyfyngiad ar ddysgwyr oherwydd dewisiadau cul ar ddiwedd blwyddyn 9 a'r 'gystadleuaeth' yn erbyn pynciau eraill, yn enwedig pynciau STEM. Barnwyd bod hyn yn cael effaith negyddol ar y niferoedd sy'n parhau i astudio ieithoedd. Roedd sylwadau gan arweinwyr IRh wedi mynegi

pryder hefyd am y ffaith bod strategaethau ysgolion a’r ffordd y maent yn rheoli’r broses ddewisiadau yn dangos y diffyg blaenoriaeth a roddir i astudio ieithoedd a’r diffyg cydnabyddiaeth o werth IRh ymhlith arweinwyr uwch mewn rhai ysgolion.

> ‘Dim ond rhai dewisiadau fydd gan ddisgyblion ac maent yn gwybod bod y cyfle i astudio pynciau yn CA5 yn ddibynnol ar y niferoedd a fydd yn eu dewis ac yn aml (felly), byddant yn dewis rhywbeth gwahanol ymlaen llaw er mwyn osgoi cael eu siomi. Bydd rhai yn mynd i rywle arall i astudio IRh. Cystadleuaeth gan bynciau TGAU ‘newydd’ fel y Cyfryngau, Busnes, Gwyddor Cyfrifiadurol Iechyd a Chymdeithasol, y Gyfraith, Peirianneg ac ati, a bydd disgyblion yn gweld na fydd gofyn cael gwybodaeth flaenorol ar eu cyfer.’ Ymatebydd o ysgol uwchradd

> ‘Diffyg gwerth ar gyfer ieithoedd mewn cymdeithas ehangach yw’r her fwyaf yr ydym yn ei hwynebu. Nid yw atebolrwydd a mesuriadau data yn annog arweinwyr uwch i roi blaenoriaeth i ieithoedd rhyngwladol, ac yn aml, bydd hyn yn arwain at amser annigonol yn cael ei neilltuo yn y cwricwlwm.’ Ymatebydd o ysgol uwchradd

3.49 I rai ymatebwyr, mae hyn yn arwain at ‘ddifaterwch’ ymhlith dysgwyr, a nododd rhai hefyd bod dysgwyr yn ystyried bod y gofyniad i astudio Cymraeg tan lefel TGAU yn ddigonol o ran dysgu iaith. Roedd sialensiau eraill sy’n gysylltiedig â hyn yn cynnwys y ffaith bod ieithoedd yn cael eu hystyried yn ‘anodd’ yn CA4 ac ôl-16 ac mae hyn yn ei gwneud yn anos hyrwyddo’r pynciau. Adroddir bod y dybiaeth hon yn dod i’r amlwg ymhlith dysgwyr yn CA3. I rai ymatebwyr, nid yw’r cymwysterau IRh presennol yn berthnasol nac yn apelio i ddysgwyr, ac mae hwn yn bwynt a nodwyd gan randdeiliaid ehangach hefyd. Mae diffyg cyngor gyrfaoedd er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o lwybrau dilyniant sy’n gysylltiedig ag IRh yn her bellach.

> ‘Mae disgyblion dal yn teimlo na allant ddefnyddio’r iaith y maent yn ei hastudio (yn enwedig ar lafar) yn y byd “go iawn” er eu bod yn pasio’r arholiad ac yn sicrhau graddau gwych.’ Ymatebydd o ysgol uwchradd


> ‘(Y sialensiau yw) diffyg ymrwymiad gan dimau uwch tuag at y fenter, diffyg athrawon cymwys neu arbenigol i addysgu ieithoedd rhyngwladol, cynnwys rhaglenni addysgu a dysgu a chymwysterau sy’n anaddas i ddysgwyr, cynnwys diflas neu’r ffaith nad ydynt yn ddigon heriol / diddorol i ddysgwyr.’ Ysgol uwchradd (cyfieithiad) Ymatebydd o ysgol uwchradd

> ‘(Yr her yw’r) gred nad yw ieithoedd yn angenrheidiol ar gyfer gyrfaoedd nad ydynt yn gysylltiedig gydag IRh yn draddodiadol (yn enwedig ymhlith disgyblion sy’n dymuno astudio meddygaeth neu filfeddygaeth).’ Ymatebydd o ysgol uwchradd

**Cynllunio ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.**

3.50 Roedd mwyafrif yr ysgolion cynradd ac uwchradd a ymatebodd yn cytuno eu bod '...yn deall y weledigaeth ar gyfer dysgu ieithoedd yn CiG, a goblygiadau'r hyn sy'n newydd yn MDPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' (43 o 46 ysgol gynradd, o'i chymharu gyda 36 o 51 ysgol uwchradd).

**Ffigur 9: Ieithoedd Rhyngwladol fel rhan o CiG, fesul cyfnod**




Ffynhonnell: Arolwg gwerthuso Dyfodol Byd-eang N= 46, Ysgolion Cynradd, N=51, Ysgolion Uwchradd,

3.51 I'r gwrthwyneb, fodd bynnag, roedd llai na hanner yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cytuno bod ganddynt yr 'adnoddau sy'n ofynnol er mwyn darparu dysgu iaith ar gyfer y cwricwlwm newydd', ac roedd tua hanner yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cytuno bod ...'ganddynt y cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n ofynnol er mwyn darparu dysgu iaith ar gyfer y cwricwlwm newydd'. Mae hyn yn dynodi bod bylchau o hyd o ran adnoddau a dysgu proffesiynol er mwyn datblygu a chynnal IRh mewn ysgolion, ac amlinellir hyn ymhellach gan y sylwadau ychwanegol i'r arolwg isod.

> 'Byddwn i wedi dymuno cael gweld rhai o'r adnoddau a'r astudiaethau achos o'r adrannau IRh a fu'n ymwneud â'r Ysgolion Arloesi. Nid ydw i'n credu bod angen cwricwlwm rhagnodedig ar ymarferwyr gan nad hynny yw nod CiG, fodd bynnag mae angen adnoddau er mwyn amlygu enghreifftiau profiadau dysgu, llenyddiaeth a sut i fabwysiadu dull gweithredu holistig tuag at y 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig'. Ymatebydd o ysgol uwchradd

3.52 Roedd ysgolion cynradd yn arbennig o'r farn bod 'Fframwaith CiG yn cynnig mwy o gyfleoedd i gynorthwyo dysgu iaith rhyngwladol', ac roedd bron i bob ysgol gynradd yn cytuno (45 o 46) o'u cymharu gyda llai na hanner yr ysgolion uwchradd (21 o 51). Pan ofynnwyd a oes gofyn iddynt gael 'cymorth pellach er mwyn cynllunio a dylunio dysgu iaith ryngwladol fel rhan o'ch cwricwlwm ysgol newydd', atebodd rhan fwyaf yr ysgolion cynradd ac uwchradd (tua 3 o bob 5) 'Oes'. Ar gyfartaledd, roedd mwy o ysgolion cynradd wedi ateb na (tua 1 o bob 3), o'i chymharu ag 1 o bob 5 ysgol uwchradd.

3.53 Roedd tua hanner yr ysgolion cynradd ac uwchradd a ymatebodd yn cytuno eu bod '...yn gweithio gydag eraill yn yr ysgol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau dull gweithredu cyffredin ac amlieithog tuag at ddysgu iaith.' Roedd sawl ysgol uwchradd wedi cynnig manylion ychwanegol, gan nodi eu partneriaethau gyda chydweithwyr yng Nghymraeg a Saesneg a datblygiad adnoddau a gweithgareddau newydd er mwyn annog dysgwyr i weithio ar draws ieithoedd.

3.54 Nododd un ysgol ei bod yn sicrhau bod iaith achlysurol sy'n gysylltiedig ag IRh yn cael ei chyflwyno i gyd-fynd â'r Gymraeg achlysurol y mae'r disgyblion a'r staff eisoes yn ei defnyddio yn ddyddiol. Amlygodd ysgol arall ei '*phwyslais cadarn ar yr iaith Gymraeg'* ar draws yr ysgol, gan feithrin hyder dysgwyr ynddi fel ail iaith, a chan nodi bod IRh yn cael eu hystyried yn rhan o'r dull gweithredu hwn tuag at ddatblygu iaith.

> 'Rydym eisoes yn gweithio fel adran Ieithoedd gyda Chymraeg ail iaith ac ieithoedd rhyngwladol, gan gyd-gynllunio cynnwys cwricwlwm er mwyn paratoi ar gyfer CiG. Mae gennym berthynas waith agos gyda'n hadran Saesneg nawr hefyd, gan ystyried sut y gallwn gynorthwyo dysgu ar draws y 3 iaith.' Ymatebydd o ysgol uwchradd

3.55 Mae'r canfyddiadau hyn yn dynodi, er yr ystyrir y cwricwlwm newydd fel cyfle i gynorthwyo ac integreiddio IRh a dull gweithredu amlieithog ehangach mewn ysgolion yng Nghymru, bydd gofyn cael adnoddau a dysgu proffesiynol pellach.

3.56 Roedd ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cynnig amrediad o ymatebion ansoddol ychwanegol yn nodi'r cymorth pellach hwn sy'n ofynnol er mwyn cynllunio a dylunio dysgu ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'u cwricwlwm ysgol

newydd a darparu dull gweithredu amlieithog. I ysgolion cynradd, barnwyd mai adnoddau megis astudiaethau achos o arfer da ac adnoddau ar-lein, ynghyd ag arweiniad a dysgu proffesiynol, fyddai elfennau mwyaf hanfodol cymorth yn y dyfodol.

> ‘Cyrsiau penodedig, cronfa o fanylion pobl y byddent yn gallu ein cynorthwyo, ymweliadau y byddent yn addas er mwyn dysgu am ddiwylliant iaith, darparu astudiaethau achos ac enghreifftiau am y ffordd y mae ysgolion eraill wedi cynllunio gwersi diddorol.’ Ymatebydd o ysgol gynradd (cyfieithiad)

3.57 I ysgolion uwchradd, barnwyd bod Maes Dysgu ILICh yn gyfle da i gyflawni’r nodau hyn ar gyfer dysgu IRh. Nododd ymatebwyr, fodd bynnag, bod gofyn iddynt gael mwy o amser i gynllunio a chydweithio gyda chydweithwyr mewn adrannau Cymraeg a Saesneg er mwyn datblygu adnoddau a gweithgareddau i’w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ac asesu offerynnau cynnydd yn gyson. Roedd un ymatebydd yn barnu y dylid ehangu’r dull gweithredu hwn er mwyn cynnwys ieithoedd cymunedol.

> ‘Gwneud mwy rhwng adrannau / ar lefel ysgol gyfan er mwyn dathlu amrywiaeth iaith yn ein cymuned. Ni cheir digon o gyfleoedd i addysgu ieithoedd cymunedol.’ Ymatebydd o ysgol uwchradd

# 4 Canfyddiadau o’r gwaith ymchwil ansoddol

4.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau o’r cyfweliadau unigol a’r grwpiau ffocws gydag aelodau grŵp llywio Dyfodol Byd-eang.

## Cynllun a darpariaeth Dyfodol Byd-eang

4.2 I randdeiliaid, prif nod Dyfodol Byd-eang (DB) fu gwella proffil IRh mewn ysgolion ac yn y sector addysg ehangach. Yn ogystal, fe’i disgrifiwyd fel rhywbeth sy’n ‘*dangos cydsafiad’* gydag ymarferwyr IRh, er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell iddynt, ynghyd â mynediad i gymorth ac adnoddau er mwyn gwneud ieithoedd yn fwy gweladwy.

4.3 Goruchwyliwyd darpariaeth Dyfodol Byd-eang gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid IRh o sefydliadau yng Nghymru ac ar draws y DU yn ehangach (gweler adran 1.6 am fanylion). Pwysleisiodd rhanddeiliaid werth y GLl fel fforwm sy’n cynnig arbenigedd, cyfleoedd rhwydweithio, ffynhonnell wybodaeth, cyngor a deialog ar gyfer yr holl rai sydd â diddordeb mewn addysgu a dysgu IRh. Barnir bod y GLl wedi cynorthwyo gwaith rhanbarthol i gynnal a hyrwyddo IRh, gan ddatblygu amrediad o bartneriaethau newydd gyda sefydliadau iaith rhyngwladol.

> *‘Ceir mwy o hygrededd ar gyfer IRh o ganlyniad i’r cam o ffurfio’r grŵp llywio. Mae wedi gwaredu’r rhwystrau sy’n atal gweithio mewn partneriaeth, gan gynnig cymorth uniongyrchol i athrawon.’* (Rhanddeiliad)

4.4 Mae amrywiaeth partneriaid GLl wedi annog cydweithrediad, creu a rhannu adnoddau ac mae wedi caniatáu i bartneriaethau pellach ddatblygu y tu allan i’w gylch gwaith gwreiddiol mewn meysydd megis cymwysterau IRh yn y dyfodol. Nododd un rhanddeiliad bod GLl bellach yn ‘*fwy ymatebol ac yn ystyried anghenion IRh dros y tymor hwy.’* I rai rhanddeiliaid, mae’r broses hon yn cynrychioli’r gwerth ychwanegol a gynigir gan y GLl, gan gynnig dealltwriaeth well i Lywodraeth Cymru o’r materion sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth IRh a’r cyfleoedd i ymestyn eu datblygiad yng Nghymru trwy gyfrwng arbenigedd a rhannu arfer da.

4.5 I randdeiliaid eraill, fodd bynnag, teimlwyd bod natur gynghorol y GLl wedi cyfyngu ar ei effaith a bod y diffyg targedau a’r canlyniadau strategol a ddymunir wedi

arwain at dybiaethau nad oes ganddo awdurdod a dylanwad yng nghyd-destun y sector addysg ehangach. Nododd y rhanddeiliaid hyn bod y GLI yn cynorthwyo amrediad o weithgareddau buddiol, ond roedd yn barnu bod ei brif rôl wedi bod yn un a fu'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn hytrach na chynllunio strategol er mwyn gwella gweithgarwch i hyrwyddo a darparu IRh.

> 'Ni fu gan y rhaglen ffocws strategol o'r cychwyn, ac nid oes gan y datganiad cenhadaeth gynllun gweithredol i gynorthwyo'r ddarpariaeth.' (Rhanddeiliad)

4.6 Nododd eraill, er bod yr adnoddau a baratowyd trwy bartneriaethau gydag aelodau GLI wedi bod yn gymorth gwerthfawr i ysgolion, ni fu cynllun cydlynol er mwyn galluogi dealltwriaeth o'u heffaith ar addysgu a dysgu. Barnwyd bod prosesau monitro a gwerthuso ar gyfer Dyfodol Byd-eang heb fod yn ddigon trylwyr a chyson a rhoddir sylw pellach i hyn yn adran 4.23.

4.7 Roedd lleiafrif o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ychwanegol am ddiffyg strategaeth gyfathrebu effeithiol er mwyn amlygu gwerth IRh ac ymwybyddiaeth o raglen Dyfodol Byd-eang mewn ysgolion. Roedd eraill yn anghytuno gyda'r safbwynt hwn, gan gyfeirio at y gweithgareddau a'r rhwydweithiau newydd a ddatblygwyd mewn ysgolion, ac amlinellodd un '*mae'r cyfathrebu wedi gwella'n sylweddol, ac mae hon wedi bod yn agwedd gadarnhaol ar y rhaglen.'*

### Effaith Dyfodol Byd-eang

4.8 Adroddodd rhanddeiliaid am ystod eang o effeithiau cadarnhaol Dyfodol Byd-eang, o ran ei phrif nodau strategol yn ystod 2020-22. Barnir bod y rhaglen wedi cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol gydag ysgolion, gan hyrwyddo ymddiriedaeth a phartneriaeth, gyda chydlynwyr IRh arweiniol, ymarferwyr ac ysgolion yn gweithio'n dda ar lefel ranbarthol a lleol. Adroddir bod mentrau megis rhaglen mentora myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Llwybrau i Ieithoedd a rhaglen ddysgu broffesiynol y Brifysgol Agored wedi cael effaith gadarnhaol, gan sicrhau bod athrawon IRh yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u gwerthfawrogi.

4.9 Nodont bod partneriaethau cychwynnol a sefydlwyd trwy gyfrwng Dyfodol Byd-eang yn gynaliadwy a'u bod wedi cynorthwyo cydweithredu IRh ehangach rhwng consortia rhanbarthol, er enghraifft trwy greu adnoddau dysgu proffesiynol. Mae

aelodau GLl yn cyfrannu at weithgor lefel pwnc Cymwysterau Cymru ar gyfer IRh hefyd. Mae'r canlyniadau cadarnhaol hyn yn cyd-fynd ag un o brif nodau strategol DB, sef cynnig arweiniad clir, egwyddorion a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth i'r holl sectorau er mwyn cynorthwyo amlieithrwydd mewn ysgolion.

4.10 Adroddodd rhanddeiliaid bod Dyfodol Byd-eang wedi cynorthwyo cynnydd yn ansawdd ac amlder gwaith rhanbarthol er mwyn hyrwyddo a darparu IRh. Mae hyn wedi golygu y bu modd creu a rhannu arfer dysgu newydd a dulliau addysgeg, gan roi hwb i hyder ymarferwyr a'u hymwybyddiaeth o gynnwys ac addysgeg IRh trwy gyfrwng cyfleoedd dysgu proffesiynol. Roedd sawl rhanddeiliad arall yn barnu y gallai'r gweithgarwch rhannu arfer dysgu ac addysgeg hwn fod wedi digwydd mewn ffordd organig heb y rhaglen, ond bod DB wedi cynorthwyo partneriaethau mwy effeithiol a chyson.

> '[Mae'r consortia rhanbarthol] wedi cydweithio mewn ffordd dda iawn, a bu hyn yn un o brif elfennau cadarnhaol y rhaglen. Ceir strwythurau da i'w datblygu ac mae rhai ysgolion wedi cael cryn gymorth.'
>
> 'Bu'r dull gweithredu rhanbarthol cyfan yn syniad da, gan gynorthwyo dull gweithredu mwy rhagweithiol ac ar draws Cymru tuag at ymgysylltu gyda dysgwyr.'

**Rhanddeiliaid**

4.11 Adroddir bod ansawdd yr adnoddau a gynhyrchwyd trwy gyfrwng y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu IRh. Roedd rhanddeiliaid wedi darparu ystod eang o enghreifftiau gan gynnwys adnoddau rhyngweithiol o ansawdd uchel, llyfrynnau adolygu a phecynnau cymorth er mwyn cynorthwyo gwaith cartref IRh, yn ogystal â'r cyfle i ymgysylltu ag arbenigwyr IRh trwy gyfrwng cyflwyniadau a rhannu arfer da. Yn ogystal, nododd rhanddeiliaid ddatblygiad dysgu cyfunol a deunyddiau ar-lein er mwyn cynorthwyo dysgu IRh o bell trwy'r pandemig, a ystyriwyd yn arwydd o ymatebolrwydd y rhaglen gyffredinol.

4.12 Barnwyd bod Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith arbennig o gadarn o ran mynediad gwell i brifysgolion i ysgolion a'r arbenigedd academaidd dilynol i gynorthwyo addysgu IRh. Mae'r adnoddau hyn a'r rhwydweithiau a ddatblygwyd er mwyn eu dylunio a'u defnyddio wedi cyfrannu at gynorthwyo addysgu a dysgu IRh

rhagorol mewn ysgolion ar draws Cymru, sef un o brif nodau pellach Dyfodol Byd-eang.

> *'Mae DB wedi cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol, gan hyrwyddo ymddiriedaeth. Bu mentrau fel rhaglen fentora Prifysgol Caerdydd yn bwerus iawn. Mae ymarferwyr arweiniol o wahanol ysgolion wedi cydweithio o ganlyniad.'* **Rhanddeiliad**

4.13 Roedd rhanddeiliaid yn barnu bod Dyfodol Byd-eang wedi hyrwyddo twf yn y cymorth ar gyfer ysgolion cynradd ac mewn cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu ag IRh, gan wneud cyfraniad rhannol i'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr ifanc sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector.

4.14 Amlygodd rhanddeiliaid yr adnoddau a'r gweithdai a ledaenwyd ar draws ysgolion cynradd, gan adrodd bod y rhain wedi arwain at ddatblygu darpariaeth newydd a gweithgareddau IRh. Nodont gyfraniad rhaglen Athrawon yn Dysgu sut i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored hefyd, sydd wedi ymgysylltu gyda dros 140 o athrawon ar draws y pedwar rhanbarth. Mae'r canfyddiadau hyn yn cysylltu gyda'r rhai a fynegwyd gan ysgolion cynradd yn yr arolwg, a nododd werth adnoddau a dysgu proffesiynol er mwyn datblygu a gwella eu darpariaeth IRh.

> 'Mae'r cynradd yn sylfaen allweddol ar gyfer Dysgu IRh – gall gynnig y sylfeini ar gyfer cyfoethogi a dilyniant, a thrwyddo i'r uwchradd.' Rhanddeiliad

4.15 Fodd bynnag, er gwaethaf y canfyddiadau cadarnhaol hyn, roedd rhanddeiliaid yn barnu bod effaith gyffredinol Dyfodol Byd-eang wedi cael ei heffeithio gan ddylanwad a chylch gwaith cyfyngedig y cynllun, mewn perthynas â materion sydd wedi gyrru'r dirywiad mewn ieithoedd dros y degawdau diwethaf. Mae hyn yn arbennig yn ymwneud â rhoi sylw i'r materion systemig ynghylch gostyngiad yn y niferoedd sy'n dewis IRh ar lefel uwchradd ac sy'n dangos pam, sef barn rhan fwyaf y rhanddeiliaid, nad yw'r rhaglen wedi cyflawni ei nodau a'i hamcanion yn llawn eto o ran cynyddu niferoedd y dysgwyr ifanc sy'n astudio IRh.

> 'Rhaid i chi fod yn onest yma, pe na byddai ITM yn orfodol tan lefel TGAU, ni fyddai fyth wedi gallu cyflawni ei nodau. Felly, mae'r targedau yn afrealistig. Mae pobl wedi gweithio'n hynod o galed ond nid yw wedi cael yr effaith y dymunwyd iddi ei chael o ran cynyddu niferoedd y dysgwyr IRh.' Rhanddeiliad

4.16 Er bod yr arolwg a safbwyntiau rhanddeiliaid yn dynodi effaith gadarnhaol Dyfodol Byd-eang ar y ddarpariaeth IRh mewn ysgolion cynradd, nid yw wedi cael yr un effaith ar lefel uwchradd. Roedd y dirywiad hwn i'w weld cyn cyfnod Dyfodol Byd-eang, fel y nodir yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, fodd bynnag, nid yw'r rhaglen wedi sicrhau unrhyw effaith amlwg wrth roi sylw i hyn.

4.17 Fel yr adroddwyd yn adroddiad Tueddiadau Iaith Cymru British Council[5], mae'r niferoedd sy'n dewis astudio TGAU a lefel-A IRh wedi parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn er 2015. Mae cofrestriadau TGAU ar gyfer Ffrangeg ac Almaeneg bron wedi haneru rhwng 2015 a 2021 a bu'r cofrestriadau TGAU Sbaeneg yn *'afreolaidd'* yn ystod yr un cyfnod, er y gwelir cynnydd rhwng 2020 a 2021 (t12). Mae cofrestriadau Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg lefel-A yn dynodi rhywfaint o sefydlogrwydd (t5). Mae Adran 5 yn darparu gwybodaeth bellach am dueddiadau wrth fanteisio ar IRh rhwng 2015 a 2021.

4.18 Roedd rhanddeiliaid ac ymatebwyr i'r arolwg o ysgolion uwchradd wedi amlygu strwythur presennol y cwricwlwm, yr ystyrir ei fod yn rhwystr sy'n atal niferoedd rhag manteisio ar IRh, gyda dewisiadau cul a diffyg cyfleoedd dilyniant er mwyn astudio ymhellach yn cael eu hystyried yn ganolog i'r dirywiad parhaus hwn ar lefel uwchradd. Felly, mynegwyd rhwystredigaeth am y ffaith nad yw Dyfodol Byd-eang wedi bod yn fwy cyfeiriol na'i fod wedi gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir ar lefel ysgol fel rhan o bolisi IRh cenedlaethol i roi sylw i'r sialensiau hyn.

4.19 Yn ogystal, adroddodd rhanddeiliaid am sialensiau parhaus ynghylch cyfle cyfartal, a cheir tybiaeth bod dysgwyr mewn ardaloedd sydd dan anfantais gymdeithasol yn llai tebygol o astudio ieithoedd. Unwaith eto, mae hyn yn cysylltu gyda chanfyddiadau yn adroddiad Tueddiadau Iaith Cymru British Council, sy'n nodi *'effaith negyddol fawr'* y pandemig ar ddysgu ieithoedd mewn ysgolion sydd mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol (t6). Er gwaethaf effaith gadarnhaol gweithgarwch ymgysylltu rhai ysgolion cynradd ac uwchradd gyda Dyfodol Byd-eang, gan gynnwys cydlynwyr IRh CARH, nodwyd nad yw hyn wedi digwydd mewn ffordd gyson ar draws Cymru.

---

[5] language_Trends_Wales_Report_2021.pdf (britishcouncil.org)

> ‘Mae cyrhaeddiad yn fater (ar gyfer Dyfodol Byd-eang) ac mae’n anodd cael mynediad i bob ysgol. Mae’r rhai sy’n gweithio gyda’r CARh yn cael cymorth da, ond ceir ysgolion eraill sydd wedi colli cysylltiad. Rydym wedi bod yn datblygu cymorth a hyfforddiant ac rydym yn cynnig hyfforddiant, ond nid ydym yn gyfrifol am gynnydd ysgolion.’ Rhanddeiliad

4.20 Adroddodd rhanddeiliaid bod effaith gadarnhaol Dyfodol Byd-eang ar lefel gynradd yn amlygu’r diffyg cydlyniaeth o ran pontio a dilyniant ar gyfer dysgwyr IRh. Er y ceir rhai enghreifftiau o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydweithio’n dda, cyfeiriodd rhanddeiliaid at fylchau yn yr ymwybyddiaeth o’r ddarpariaeth IRh, nad yw’n datblygu cynnydd ac uchelgais dysgwyr a sgiliau estynedig ymarferwyr ar lefel gynradd. Adroddwyd am hyn gan ysgolion a arolygwyd hefyd ac fe’i hamlygir fel her barhaus mewn sawl un o’r astudiaethau achos.

> ‘Gall Dyfodol Byd-eang fod yn offeryn er mwyn sicrhau newid, ond ni cheir digon o ymwybyddiaeth ohoni o hyd – ni cheir y lefel ofynnol o ran cyfathrebu. Mae’n ariannu pethau ond nid yw pobl yn ei deall – mae wedi cymryd nifer o gamau bychain, ond nid yw wedi cael effaith enfawr eto.’ Rhanddeiliad

4.21 Nid oedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn ystyried bod model presennol y cyllid o un flwyddyn i’r llall ar gyfer y rhaglen yn caniatáu dull cynaliadwy tuag at hyrwyddo a datblygu IRh yn unol â nodau’r rhaglen. Adroddir bod hyder athrawon yn her allweddol arall. Er y cydnabyddir bod Dyfodol Byd-eang wedi darparu cymorth ac adnoddau o ansawdd da, mae rhanddeiliaid o’r farn y bydd gofyn cael dull gweithredu mwy cydlynus ac ar draws y genedl, gan gynnwys ymwreiddio IRh yn AGA, er mwyn datblygu’r cynnydd.

4.22 Yn ogystal, roedd rhanddeiliaid a rhai ymatebwyr i’r arolwg o’r farn nad yw cymwysterau IRh yn addas i’r diben ar hyn o bryd. Barnir bod cynnwys cyrsiau TGAU yn arbennig yn wan, heb fod yn berthnasol a heb fod yn cynnwys pynciau sy’n cyd-fynd ag uchelgais disgyblion. Mynegwyd pryder ynghylch dilyniant i weithgarwch astudio pellach a gyrfaoedd posibl mewn IRh neu sy’n defnyddio IRh hefyd. Fel y nodwyd yn adran 4.9, rhoddir sylw i hyn nawr ar lefel grŵp llywio ac mae’r aelodau yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i gynorthwyo’r broses o ailgynllunio TGAU IRh er mwyn ymgysylltu gyda dysgwyr a’u cynorthwyo mewn ffordd well.

4.23 Mae’r gwaith o fonitro a gwerthuso effaith Dyfodol Byd-eang wedi bod yn anghyson ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg tystiolaeth gadarn ynghylch y

cwestiwn a yw'r rhaglen yn cyflawni ei nodau cyffredinol neu beidio. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod diffyg cylch gorchwyl ar gyfer Dyfodol Byd-eang yn tarfu ar ei photensial i fod yn dryloyw, i sicrhau cylch gwella parhaus ac i reoli prosiectau mewn ffordd effeithiol.

> 'Nid oes gennym dystiolaeth ynghylch a yw'r cymorth yr ydym wedi ei ddarparu i ysgolion wedi bod yn ddefnyddiol. Dylid bod mwy o waith yma i sicrhau bod ysgolion yn rhoi adborth i'w rhanbarthau a bod disgwyliadau i wneud hyn yn dod yn rhan annatod o'u harfer.' Rhanddeiliad

**Cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer Dyfodol Byd-eang a'r ddarpariaeth IRh**

4.24 Adroddodd rhanddeiliaid bod Dyfodol Byd-eang wedi darparu amrediad o ganlyniadau cadarnhaol yn unol â nodau ac amcanion y rhaglen o 2022. Fodd bynnag, roeddent yn barnu nad yw'r rhaglen wedi llwyddo i roi sylw i'r materion systemig sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n dewis IRh mewn ysgolion yng Nghymru.

4.25 Felly, mae rhanddeiliaid wedi awgrymu amrediad o welliannau i Ddyfodol Byd-eang er mwyn hyrwyddo ac addysgu IRh yn y dyfodol, yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd a chyfleoedd eraill, gan ddatblygu'r canlyniadau cadarnhaol gyflawnwyd. Mewn rhai achosion, mae'r rhain yn gysylltiedig â'r awgrymiadau a roddwyd gan ymatebwyr i'r arolwg, a adroddwyd yn adran 3, megis adnoddau a dysgu proffesiynol law yn llaw â mwy o ffocws ar nodau ac amcanion strategol diwygiedig ar gyfer y rhaglen.

4.26 Ceir amrediad o gyfleoedd i atgyfnerthu'r cynnydd a'r partneriaethau a ffurfiwyd trwy DB, er enghraifft ynghylch cyflwyno IRh mewn ysgolion cynradd a'r adnoddau a ddatblygwyd i'r diben hwn. I randdeiliaid, dylai cynnal y cynnydd hwn fod yn ffocws allweddol yn ystod gweithgareddau pontio, gan gynorthwyo ysgolion uwchradd i ystyried cynnydd dysgwyr a'r momentwm o'r cynradd.

> 'Mae Dyfodol Byd-eang wedi caniatáu cydweithio y mae modd ei ddatblygu – bu'r mynediad i sefydliadau a phrifysgolion yn dda iawn.' Rhanddeiliad

4.27 Roedd rhanddeiliaid yn barnu y byddai gofyn i adnoddau a llwybrau dilyniant iaith clir gael eu datblygu ar gyfer dysgwyr CA3 yn y broses hon, gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad yn CA4 a phontio'r bwlch i astudio iaith yn lefel A.

Awgrymont y byddai modd cyflawni hyn trwy gyfrwng gwaith partneriaeth wedi'i dargedu yn fwy gyda phrifysgolion a Gyrfa Cymru o blith aelodaeth y grŵp llywio presennol, ynghyd â sefydliadau sy'n cynrychioli byd busnes a chyflogwyr. Gallai cynyddu'r gydnabyddiaeth i ddysgu iaith o fewn elfen Addysg Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith (CWRE) y cwricwlwm newydd fod yn rhan o'r broses hon hefyd.

4.28 Caiff y cwricwlwm newydd ei hun ei ystyried gan randdeiliaid fel '*cyfle enfawr i ymwreiddio IRh'* a sicrhau dull gweithredu integredig tuag at addysgu a dysgu law yn llaw â Chymraeg a Saesneg. Byddai'r dull gweithredu hwn yn cynorthwyo pob dysgwr i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae ieithoedd yn gweithio.

4.29 Felly, gallai Dyfodol Byd-eang diwygiedig fod yn rhan o weithgarwch cynllunio dros y tymor hwy ar gyfer pob iaith yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal â chysylltu ag amcanion Cymraeg 2050. Mae rhywfaint o waith eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn trwy gyfrwng Dyfodol Byd-eang fel yr amlinellir yn yr enghreifftiau a roddwyd yn adran 3.50 ac yn astudiaeth achos 4. Enghraifft bellach mewn un rhanbarth yw arweinwyr cynradd sy'n siarad Cymraeg yn modelu sut y gall IRh gynorthwyo wrth addysgu Cymraeg ac i'r gwrthwyneb, gan gynorthwyo trawsieithu ac amlieithrwydd.

> 'Dylai Dyfodol Byd-eang ddatblygu'r platfform a grëwyd er mwyn ychwanegu at y negeseuon am ieithoedd a'u cadw fel rhan sefydledig a gweladwy ac yn rhan o'r profiad dysgu ehangach yn y cwricwlwm newydd.'
>
> 'Mae angen i IRh gael lle amlwg a theg yn yr MDPh (ILlCh) fel y gall y cysylltiadau rhwng y dair iaith fod yn glir, a defnydd sgiliau hefyd.'
>
> Rhanddeiliaid

4.30 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y camau arfaethedig i ddiwygio cymwysterau TGAU mewn ieithoedd fel Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg a'r bwriad i gyflwyno cymwysterau 'mini' newydd yn gyfle hefyd. Galwyd am fwy o hyblygrwydd wrth asesu, dull gweithredu mwy cyson tuag at ddysgu a bod cymwysterau newydd (gan gynnwys ffocws o'r newydd ar lefel 2) yn cael eu gwneud yn fwy perthnasol a chyflawnadwy. Ystyrir bod Dyfodol Byd-eang ac unrhyw gynllun olynol yn blatfform er mwyn i Lywodraeth Cymru ac eraill barhau i weithio ar hyn mewn ffordd ragweithiol gyda Chymwysterau Cymru.

4.31 Roedd rhanddeiliaid yn barnu bod yr ysgolion sydd wedi dangos arweinyddiaeth ym maes IRh ac y maent wedi ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol gyda Dyfodol Byd-eang yn parhau i wneud yn dda. Adroddont ei bod yn angenrheidiol felly ystyried cyfle cyfartal er mwyn ymgysylltu gydag ieithoedd ar draws pob ardal ac ysgol yng Nghymru. Barnwyd bod datblygu'r clystyrau a'r partneriaethau rhanbarthol a gefnogir gan y rhaglen yn ddull cynaliadwy er mwyn cynorthwyo mwy o gydraddoldeb wrth ymgysylltu, gan roi sylw i rai o'r sialensiau ynghylch y niferoedd sy'n manteisio ar IRh mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol.

> 'Rhaid bod cyfle cyfartal ac egwyddorion dylunio cyffredin ar gyfer cymwysterau IRh. Ar hyn o bryd, mae mwy o gymorth ariannol yn Lloegr a chysondeb gyda'i rhaglen astudio ar gyfer IRh a ffocws ar CA1 a 2.'
>
> Rhanddeiliad

4.32 Amlinellodd rhai rhanddeiliaid bod angen ystyried rôl Estyn yng ngoleuni gofynion y cwricwlwm newydd ac y dylai gyflawni rôl mwy canolog. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn baratoi adroddiad thematig sy'n canolbwyntio ar IRh dan y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd, er mwyn cynorthwyo arfer da a chanlyniadau dymunol. Byddai hyn yn cynnig gwaelodlin ar gyfer datblygiad darpariaeth IRh bellach.

4.33 Mae hyder a gallu ymarferwyr i ddarparu IRh yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig. Mae safbwyntiau o'r arolwg yn dynodi y bydd angen adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol pellach arnynt er mwyn gwella profiadau dysgu a chael safbwynt ehangach o ieithoedd trwy MDPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh). Mae Dyfodol Byd-eang wedi darparu'r ysgogiad am amrediad o adnoddau IRh a gweithgareddau dysgu proffesiynol o ansawdd. Yn y dyfodol, gellir datblygu'r partneriaethau rhwng CARh, sefydliadau iaith a phrifysgolion sydd wedi creu'r adnoddau hyn, gan weithredu fel storfa ar gyfer arbenigedd ynghylch IRh.

4.34 Er mwyn cynorthwyo'r broses hon ymhellach, roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylid ymwreiddio ieithoedd yn AGA er mwyn datblygu ac achredu sgiliau iaith. Gall hyn gyfrannu at wella ansawdd addysgu a dysgu, gan ganiatáu i ymarferwyr gymryd cyfrifoldeb a hyrwyddo ieithoedd yn eu hysgolion nhw.

4.35 Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn bod angen ailystyried rheolaeth a darpariaeth Dyfodol Byd-eang. Roeddent yn galw am gylch gwaith mwy eglur ar gyfer y grŵp llywio, a chylch gorchwyl newydd a chynllun gweithredu diwygiedig sy’n cynnwys canlyniadau mesuradwy a gwaith monitro a gwerthuso rheolaidd. Yn ogystal, gofynnwyd i’r GLl ddwyn aelodau newydd i mewn e.e. cynrychiolwyr addysgu Cymraeg, Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a chyflogwyr. Yn ogystal, gofynnwyd am fwy o ffocws ar ddatblygu gweithgorau mewnol gydag amcanion mesuradwy, megis prosiectau ymchwil gweithredu ar addysgeg IRh a rôl digidol mewn addysgu IRh.

> ‘Nid oes atebolrwydd dros wella IRh, ac mae angen newid hynny. Nid yw’n ddigon ei fod yn ofyniad yn fframwaith y cwricwlwm.’ Rhanddeiliad

# 5 Data gweinyddol sy'n ymwneud ag ieithoedd rhyngwladol yn ystod y cyfnod 2014/15 i 2020/21

5.1 Mae gwaith dadansoddi data uwchradd a gasglwyd trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn darparu cyd-destun pellach ac yn atgyfnerthu'r prif ganfyddiadau ymchwil a gyflwynwyd yn y penodau blaenorol.

5.2 Mae'r adran hon yn cyflwyno data am gofrestriadau TGAU mewn IRh; cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth a rhyw; a sylwebaeth am gofrestriadau TGAU yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (FSM).

### Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol

5.3 Roedd y gostyngiad mewn cofrestriadau TGAU mewn IRh a welwyd ers y blynyddoedd cyn cyhoeddi Dyfodol Byd-eang wedi parhau rhwng 2014/15 a 2020/21. Fel y nodwyd yn Adran 1 yr adroddiad hwn, roedd cofrestriadau TGAU wedi gostwng 44 y cant rhwng 2002 a 2015 (gweler Ffigur 10). Gwelwyd gostyngiad pellach o 42 y cant rhwng 2015 a 2021.

5.4 Gwelwyd cofrestriadau Ffrangeg yn gostwng dros 45 y cant, a chofrestriadau Almaeneg yn gostwng 53 y cant. Roedd nifer y cofrestriadau TGAU Almaeneg yn llai na 500 am y tro cyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Mae cofrestriadau Sbaeneg wedi codi a gostwng ac maent yn dangos gostyngiad cyffredinol o 16 y cant rhwng 2015 a 2021.


5.5 Mae niferoedd y bechgyn sy'n astudio ieithoedd ar lefel TGAU yn parhau i fod yn is na nifer y merched sy'n eu hastudio ar gyfer pob iaith. Mae maint y gostyngiad o ran y niferoedd sy'n dysgu iaith ar lefel TGAU yn fwy ymhlith bechgyn. Gwelwyd cofrestriadau TGAU ymhlith bechgyn yn gostwng 47 y cant rhwng 2015 a 2021, o'i chymharu gyda gostyngiad o 39 y cant ymhlith merched.

**Tabl 7. Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol, 2014/15 i 2020/21**

| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffrangeg** | | | | | | | | Newid 2014/15-2020/21 **(%)** |
| Bechgyn | 1,764 | 1,486 | 1,237 | 1,180 | 1,007 | 978 | 849 | -51.9 |
| Merched | 3,029 | 2,638 | 2,321 | 2,262 | 1,937 | 1,980 | 1,762 | -41.8 |
| Cyfanswm Ffrangeg | 4,793 | 4,124 | 3,558 | 3,442 | 2,944 | 2,958 | 2,611 | -45.5 |
| **Almaeneg** | | | | | | | | |
| Bechgyn | 430 | 474 | 271 | 367 | 237 | 251 | 222 | -48.4 |
| Merched | 594 | 598 | 446 | 393 | 324 | 294 | 258 | -56.6 |
| Cyfanswm Almaeneg | 1,024 | 1,072 | 717 | 760 | 561 | 545 | 480 | -53.1 |
| **Sbaeneg** | | | | | | | | |
| Bechgyn | 600 | 451 | 436 | 357 | 434 | 359 | 479 | -20.2 |
| Merched | 1,145 | 801 | 915 | 672 | 885 | 688 | 981 | -14.3 |
| Cyfanswm Sbaeneg | 1,745 | 1,252 | 1,351 | 1,029 | 1,319 | 1,047 | 1,460 | -16.3 |
| **Ieithoedd eraill** | | | | | | | | |
| Bechgyn | 197 | 198 | 199 | 226 | 152 | 78 | 35 | -82.2 |
| Merched | 197 | 245 | 248 | 216 | 152 | 106 | 39 | -80.2 |
| Cyfanswm Ieithoedd eraill | 394 | 443 | 447 | 442 | 304 | 184 | 74 | -81.2 |
| Holl ieithoedd – bechgyn | 2,991 | 2,609 | 2,143 | 2,130 | 1,830 | 1,666 | 1,585 | -47.0 |
| Holl ieithoedd – merched | 4,965 | 4,282 | 3,930 | 3,543 | 3,298 | 3,068 | 3,040 | -38.8 |
| **Holl ieithoedd** | **7,956** | **6,891** | **6,073** | **5,673** | **5,128** | **4,734** | **4,625** | **-41.9** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

**Ffigur 10. Cofrestriadau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, 2002 i 2021**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

5.6 Mae'n ddiddorol ystyried cyd-destun y data ynghylch cofrestriadau TGAU IRh, gan gymharu cofrestriadau a thueddiadau gyda phynciau anstatudol eraill. Mae Tabl 8 yn dangos lefelau isel o ran y niferoedd sy'n astudio pynciau IRh TGAU o'i chymharu gyda phynciau eraill, a gostyngiadau llawer yn fwy yn nifer y cofrestriadau rhwng 2014/15 a 2020/21.

**Tabl 8. Cofrestriadau TGAU mewn pynciau anstatudol dethol yng Nghyfnod Allweddol 4 2020/21**

| Pwnc | Cofrestriadau TGAU 2020/21 | Newid yn y cofrestriadau TGAU rhwng 2014/15 a 2020/21 |
|---|---:|---:|
| Addysg grefyddol | 10,138 | - 10.6% |
| Dylunio a thechnoleg | 9,190 | + 2.4% |
| Hanes | 8,933 | - 23.4% |
| Daearyddiaeth | 7,433 | - 24.6% |
| Ffrangeg | 2,611 | - 45.5% |
| Sbaeneg | 1,460 | - 16.3% |
| Almaeneg | 480 | - 53.1% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

### Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth

5.7 Mae Tabl 9 yn cyflwyno data am gofrestriadau TGAU fesul rhanbarth. Mae'n cyflwyno data am Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, sef y dair brif iaith a astudir. Nid yw'n cynnwys ieithoedd eraill o ystyried niferoedd bychain y cofrestriadau ar lefel ranbarthol. Mae'r data yn dangos amrywiadau nodedig yng nghyfradd y gostyngiadau rhwng rhanbarthau ac ar draws y gwahanol ieithoedd.

**Tabl 9. Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth, 2014/15, 2017/18 a 2020/21**[6]

| | 2014/15 | | | | 2017/18 | | | | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhan-barth | Ffrang-eg | Almaen-eg | Sbaen-eg | Cyfan-swm | Ffrang-eg | Almaen-eg | Sbaen-eg | Cyfan-swm | Ffrang-eg | Almaen-eg | Sbaen-eg | Cyfan-swm |
| Gogledd | 1,006 | 220 | 202 | **1,428** | 717 | 180 | 150 | **1,047** | 607 | 163 | 161 | **931** |
| Canol & Gorllewin | 1,450 | 192 | 471 | **2,113** | 1,159 | 96 | 348 | **1,603** | 780 | 78 | 340 | **1,198** |
| Canol De | 1,277 | 411 | 468 | **2,156** | 1,046 | 371 | 307 | **1,724** | 923 | 200 | 527 | **1,650** |
| De Ddwyrain | 806 | 109 | 397 | **1,312** | 517 | 110 | 221 | **848** | 307 | 40 | 432 | **779** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

**Tabl 10. Canran y newid yn y cofrestriadau TGAU fesul rhanbarth, 2014/15 i 2020/21**

| | Newid yn y cofrestriadau TGAU rhwng 2014/15 a 2020/21 | | |
|---|---|---|---|
| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg |
| Gogledd Cymru | -39.7% | -25.9% | -20.3% |
| Canolbarth & Gorllewin | -46.2% | -59.4% | -27.8% |
| Canolbarth y De | -27.7% | -51.3% | +12.6% |
| De Ddwyrain | -61.9% | -63.3% | +8.8% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

5.8 Mae data rhanbarthol ynghylch cofrestriadau TGAU **Ffrangeg** rhwng 2014/15 a 2020/21 yn datgelu:

- Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau TGAU Ffrangeg yn y pedwar rhanbarth;

[6] Nid yw'r tabl hwn am gofrestriadau TGAU yn cynnwys canlyniadau disgyblion mewn ysgolion annibynnol na disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg ac sydd wedi cychwyn yn y system addysg yng Nghymru o fewn 18 mis o'r cyfnod arholiadau TGAU. Felly, efallai na fydd y data hwn yn cyd-fynd â data arall a gyhoeddir ar-lein neu a gaiff ei gynnwys mewn tablau eraill yn yr adroddiad hwn.

- Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru (roedd nifer y cofrestriadau TGAU wedi gostwng 61.9%);
- Gwelwyd y gostyngiad isaf yn rhanbarth Canol De Cymru, lle y gwelwyd gostyngiad o 27.7% mewn cofrestriadau TGAU Ffrangeg rhwng 2014/15 a 2020/21.

5.9 Mae data rhanbarthol ynghylch cofrestriadau TGAU **Almaeneg** rhwng 2014/15 a 2020/21 yn datgelu:

- Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau TGAU Almaeneg yn y pedwar rhanbarth;
- Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru (roedd nifer y cofrestriadau TGAU wedi gostwng 63.3%) – yn 2020/21, dim ond 40 o gofrestriadau Almaeneg a gofnodwyd;
- Gwelwyd y gostyngiad isaf yn rhanbarth Gogledd Cymru, lle y gwelwyd gostyngiad o 25.9% mewn cofrestriadau TGAU Almaeneg rhwng 2014/15 a 2020/21.

5.10 Mae data rhanbarthol mewn perthynas â chofrestriadau TGAU **Sbaeneg** rhwng 2014/15 a 2020/21 yn datgelu darlun rhanbarthol mwy cymysg:

- Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau TGAU Sbaeneg yng Ngogledd Cymru ac yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mewn cyferbyniad, gwelwyd cynnydd yn nifer y cofrestriadau TGAU yn rhanbarthau Canol De Cymru a De Ddwyrain Cymru rhwng 2014/15 a 2020/21 – er bod y niferoedd wedi codi a gostwng yn ystod y blynyddoedd yn y canol.
- Gwelwyd nifer y cofrestriadau yn gostwng fwyaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (roedd nifer y cofrestriadau TGAU wedi gostwng 27.8%);
- Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cofrestriadau TGAU Sbaeneg yng Nghanol De Cymru, lle y gwelwyd cofrestriadau yn codi 12.6% rhwng 2014/15 a 2020/21.

**Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth a rhyw, 2014/15, 2017/18 a 2020/21**

5.11 Mae Tabl 11 yn cyflwyno data am y niferoedd a oedd wedi dewis astudio Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg rhwng 2014/15 a 2020/21 fesul rhanbarth a rhyw. Yn achos Ffrangeg a Sbaeneg, mae nifer y cofrestriadau TGAU benywaidd yn parhau i fod lawer yn uwch na nifer y cofrestriadau gwrywaidd ym mhob rhanbarth. Mae'r gymhareb rhwng cofrestriadau TGAU benywaidd a gwrywaidd yn y pynciau hyn wedi cynyddu, o ganlyniad i'r gostyngiad mwy yn nifer y cofrestriadau ymhlith bechgyn yn ystod y cyfnod hwn. Roedd dros ddwy waith yn fwy o gofrestriadau TGAU yn Ffrangeg a Sbaeneg ymhlith myfyrwyr benywaidd o'u cymharu â myfyrwyr gwrywaidd yn ystod 2020/21, ac mae hwn yn batrwm a welir yn weddol gyson ar draws y pedwar rhanbarth.

**Tabl 11. Cofrestriadau TGAU fesul rhanbarth a rhyw[7]**

| | 2014/15 | | | 2017/18 | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg |
| **Merched** | | | | | | | | | |
| Gogledd Cymru | 625 | 131 | 129 | 486 | 97 | 105 | 399 | 79 | 98 |
| Canolbarth & Gorllewin | 967 | 122 | 312 | 771 | 46 | 233 | 537 | 42 | 233 |
| Canolbarth y De | 797 | 218 | 333 | 669 | 190 | 212 | 622 | 112 | 354 |
| De Ddwyrain | 494 | 64 | 245 | 334 | 59 | 122 | 206 | 25 | 296 |
| **Cymru** | **2,883** | **535** | **1,019** | **2,260** | **392** | **672** | **1,764** | **258** | **981** |
| **Bechgyn** | | | | | | | | | |
| Gogledd Cymru | 381 | 89 | 73 | 231 | 83 | 45 | 208 | 84 | 63 |
| Canolbarth & Gorllewin | 483 | 70 | 159 | 388 | 50 | 115 | 243 | 36 | 107 |
| Canolbarth y De | 480 | 193 | 135 | 377 | 181 | 95 | 301 | 88 | 173 |
| De Ddwyrain | 312 | 45 | 152 | 183 | 51 | 99 | 101 | 15 | 136 |
| **Cymru** | **1,656** | **397** | **519** | **1,179** | **365** | **354** | **853** | **223** | **479** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

5.12 Yn achos Almaeneg, mae'r darlun ychydig yn fwy anniffiniol: gwelwyd gwahaniaethau llai amlwg rhwng niferoedd y cofrestriadau TGAU benywaidd a gwrywaidd yn y pedwar rhanbarth. Yn wir, gwelwyd nifer ychydig yn uwch o

[7] Nid yw'r tabl hwn am gofrestriadau TGAU yn cynnwys canlyniadau disgyblion mewn ysgolion annibynnol na disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg ac sydd wedi cychwyn yn y system addysg yng Nghymru o fewn 18 mis o'r cyfnod arholiadau TGAU. Felly, efallai na fydd y data hwn yn cyd-fynd â data arall a gyhoeddir ar-lein neu a gaiff ei gynnwys mewn tablau eraill yn yr adroddiad hwn.

gofrestriadau ymhlith gwrywod yn rhanbarth Gogledd Cymru yn 2020/21. Dylid nodi, fodd bynnag, bod hyn yng nghyd-destun niferoedd isel iawn o gofrestriadau cyffredinol yn Almaeneg ym mhob rhanbarth.

**Tabl 12. Newid canrannol mewn cofrestriadau TGAU fesul rhanbarth a rhyw, 2014/15 i 2020/21**

| | Newid yn y cofrestriadau TGAU rhwng 2014/15 a 2020/21 | | |
|---|---|---|---|
| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg |
| Merched | | | |
| Gogledd Cymru | -36.2% | -39.7% | -24.0% |
| Canolbarth & Gorllewin | -44.5% | -65.6% | -25.3% |
| Canolbarth y De | -22.0% | -48.6% | +6.3% |
| De Ddwyrain | -58.3% | -60.9% | +20.8% |
| Bechgyn | | | |
| Gogledd Cymru | -45.4% | -5.6% | -13.7% |
| Canolbarth & Gorllewin | -49.7% | -48.6% | -32.7% |
| Canolbarth y De | -37.3% | -54.4% | +28.1% |
| De Ddwyrain | -67.6% | -66.7% | -10.5% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

5.13 Mae dadansoddiad o’r newidiadau gydag amser yn datgelu rhai gwahaniaethau rhanbarthol nodedig rhwng nifer y cofrestriadau benywaidd a gwrywaidd.

- **Ffrangeg** Gwelwyd cofrestriadau TGAU yn gostwng yn fwy ymhlith gwrywod na benywod yn y pedwar rhanbarth. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ymhlith bechgyn yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru (roedd nifer y cofrestriadau wedi gostwng 67.6 y cant rhwng 2014/15 a 2020/21). Gwelwyd y gostyngiad isaf ymhlith merched yn rhanbarth Canol De Cymru (a oedd wedi gostwng 22 y cant yn ystod yr un cyfnod).
- **Almaeneg** Gwelwyd cofrestriadau TGAU yn gostwng ychydig yn fwy ymhlith benywod na gwrywod rhwng 2014/15 a 2020/21. Ar gyfer benywod a gwrywod, fodd bynnag, mae’r darlun yn un tywyll, gan bod nifer y cofrestriadau wedi gostwng mwy na hanner er 2015. Yr unig eithriad ar lefel ranbarthol yw ffigurau’r cofrestriadau gwrywaidd yng Ngogledd Cymru, lle y mae’r niferoedd wedi aros ar yr un lefel yn fras, gan ostwng 5 y cant yn unig.

- **Sbaeneg** Mae’r cofrestriadau TGAU yn cyflwyno darlun cymysg, a gwelir ychydig ddata calonogol ar lefel ranbarthol. Gwelwyd cofrestriadau yn gostwng ymhlith benywod a gwrywod yng Ngogledd Cymru ac yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru rhwng 2014/15 a 2020/21. Fodd bynnag, yn rhanbarth Canol De Cymru, roedd cofrestriadau Sbaeneg wedi codi 6 y cant ymhlith benywod a dros 28 y cant ymhlith gwrywod. Yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru, roedd nifer y cofrestriadau wedi codi ymhlith benywod ond wedi gostwng ymhlith gwrywod.

### Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth a fesul cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (FSM), 2014/15, 2017/18 a 2020/21

5.14 Mae Tabl 13 yn cyflwyno data ynghylch cofrestriadau TGAU fesul rhanbarth, gan ddynodi nifer y cofrestreion yn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn ôl y dysgwyr sy’n gymwys i gael FSM a chofrestriadau gan ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael FSM. Yn 2020/21, roedd cyfanswm cyfunol o 428 o gofrestreion yn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg gan ddysgwyr yr oeddent yn gymwys i gael FSM. Mae hyn yn cymharu gyda ffigwr cyfatebol o 450 o gofrestriadau yn yr un pynciau yn 2014/15. Mae niferoedd y dysgwyr sy’n gymwys i gael FSM ac sy’n astudio TGAU Sbaeneg wedi codi mewn tri o’r pedwar rhanbarth rhwng 2014/15 a 2020/21, mewn cyferbyniad gyda gostyngiad yng nghyfanswm y cofrestriadau yn ystod yr un cyfnod.

**Tabl 13. Cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd dethol fesul rhanbarth a chymhwysedd i gael FSM, 2014/15, 2017/18 a 2020/21**[8]

| | 2014/15 | | | 2017/18 | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg |
| **Cymwys i gael FSM** | | | | | | | | | |
| Gogledd | 49 | 11 | 13 | 32 | 14 | 15 | 46 | 20 | 12 |
| Canolbarth & Gorllewin | 95 | 16 | 35 | 82 | * | 16 | 67 | * | 39 |
| Canolbarth y De | 94 | 15 | 41 | 65 | 14 | 39 | 91 | 11 | 62 |
| De Ddwyrain | 56 | 5 | 20 | 35 | * | 10 | 44 | * | 36 |
| **Wales** | **294** | **47** | **109** | **214** | **28** | **80** | **248** | **31** | **149** |
| **Ddim yn gymwys i gael FSM** | | | | | | | | | |
| Gogledd | 957 | 209 | 189 | 685 | 166 | 135 | 561 | 143 | 149 |
| Canolbarth & Gorllewin | 1,355 | 176 | 436 | 1,077 | 90 | 332 | 713 | 70 | 301 |
| Canolbarth y De | 1,183 | 396 | 427 | 981 | 357 | 268 | 832 | 189 | 465 |
| De Ddwyrain | 750 | 104 | 377 | 482 | 108 | 211 | 263 | 36 | 396 |
| **Wales** | **4,245** | **885** | **1,429** | **3,225** | **721** | **946** | **2,369** | **438** | **1,311** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

5.15 Un cwestiwn pwysig yw pa mor gymesur yw cynrychiolaeth dysgwyr sy'n gymwys i gael FSM ymhlith cofrestriadau TGAU yn y pynciau hyn. Gellir cyfrifo hyn – mewn ffordd gymharol fras – trwy gymharu cyfran y cofrestriadau TGAU ymhlith dysgwyr sy'n gymwys i gael FSM gyda chyfran gyffredinol y dysgwyr sy'n gymwys i gael FSM ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Yn 2020/21, roedd 21 y cant o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd (pob grŵp blwyddyn) yn gymwys i gael FSM. Fodd bynnag, roedd cyfran lawer is o gofrestriadau TGAU yn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg – ychydig dros 9 y cant – gan ddysgwyr yr oeddent yn gymwys i gael FSM. Mae'r gwahaniaeth neu'r tan-gynrychiolaeth perthynol hwn o ran dysgwyr FSM ymhlith cofrestreion TGAU yn bodoli ar draws pob rhanbarth, gan ddilyn patrwm tebyg (gweler Tabl 14).

[8] Nid yw'r tabl hwn am gofrestriadau TGAU yn cynnwys canlyniadau disgyblion mewn ysgolion annibynnol na disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg ac sydd wedi cychwyn yn y system addysg yng Nghymru o fewn 18 mis o'r cyfnod arholiadau TGAU. Felly, efallai na fydd y data hwn yn cyd-fynd â data arall a gyhoeddir ar-lein neu a gaiff ei gynnwys mewn tablau eraill yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 14. Cyfran yr holl ddysgwyr sy'n gymwys i gael FSM a chyfran y cofrestriadau iaith ymhlith dysgwyr FSM, 2014/15 a 2020/21**[9]

| | % y dysgwyr yn gymwys i gael FSM 2014/15 | % cofrestriadau Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ymysg dysgwyr cymwys i gael FSM 2014/15 | % y dysgwyr yn gymwys i gael FSM 2020/21 | % cofrestriadau Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ymysg dysgwyr cymwys i gael FSM 2020/21 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Gogledd | 15% | 5% | 18% | 8% |
| Canolbarth & Gorllewin | 16% | 7% | 19% | 9% |
| Canolbarth y De | 19% | 7% | 23% | 10% |
| De Ddwyrain | 19% | 6% | 22% | 10% |
| Cymru | 17% | 6% | 21% | 9% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CYBLD

[9] Mae canrannau'r dysgwyr sy'n gymwys i gael FSM a ddynodir yn y tabl hwn ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Gallai canran y dysgwyr yn B11 sy'n gymwys i gael FSM fod ychydig yn wahanol i'r data a ddangosir yn y tabl.

# 6 Casgliadau ac argymhellion

## Cynllun a darpariaeth

6.1 Mae'r ymchwil wedi nodi cryfderau a gwendidau tybiedig yng nghynllun a darpariaeth Dyfodol Byd-eang o ran ei nodau strategol o hyrwyddo a chynorthwyo IRh ar draws ysgolion yng Nghymru.

6.2 Teimlir bod y rhaglen wedi cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol IRh gwell i ymarferwyr, gan gynnig mynediad iddynt i adnoddau a chymorth o ansawdd, yn unol â'i nodau strategol. Ystyrir bod grŵp llywio DB yn ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a deialog ac mae wedi cefnogi gwaith rhanbarthol a phartneriaethau ehangach er mwyn cynnal a hyrwyddo IRh yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'n ychwanegu gwerth mewn meysydd megis cymwysterau IRh newydd a sut y gellir integreiddio IRh yn y Cwricwlwm i Gymru newydd.

6.3 Ystyrir bod y cwricwlwm newydd ei hun yn '*gyfle enfawr i ymwreiddio IRh'* a chynnig sylfaen er mwyn cynorthwyo mwy o weithgarwch i hyrwyddo ieithoedd a chynyddu'r niferoedd sy'n eu hastudio. Er hyn, bydd gofyn i ysgolion gael adnoddau a chymorth parhaus er mwyn cynnal effaith gadarnhaol Dyfodol Byd-eang, gan ddarparu IRh yn llwyddiannus fel rhan o'r broses hon.

> **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r grŵp llywio i gyd-greu rhaglen Dyfodol Byd-eang newydd, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth IRh fel rhan annatod o'r CiG newydd.

6.4 Er gwaethaf ei gyflawniadau cadarnhaol, nid yw grŵp llywio Dyfodol Byd-eang wedi gallu gwireddu nodau'r rhaglen yn llawn eto yn wyneb y ffactorau niferus eraill sy'n effeithio ar ddarpariaeth IRh mewn ysgolion. Mae natur cynghorol y grŵp llywio yn golygu bod ei rôl yn aml yn cael ei ystyried fel rôl rhannu gwybodaeth, yn hytrach na rôl cyflawni canlyniadau strategol.

> **Argymhelliad 2:** Dylai iteriad nesaf Dyfodol Byd-eang gynnwys cylch gorchwyl clir a thargedau mesuradwy. Dylai hyn fod yn gysylltiedig ag argymhelliad 8 i wella gweithgarwch monitro a gwerthuso.

**Effaith Dyfodol Byd-eang**

6.5 Adroddodd rhanddeiliaid ac ysgolion am ystod eang o effeithiau cadarnhaol Dyfodol Byd-eang mewn perthynas â'i nodau strategol allweddol ar gyfer 2020-22. O ran ei nod strategol o 'ddarparu arweiniad clir, egwyddorion a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth er mwyn cynorthwyo amlieithrwydd mewn ysgolion', mae'r rhaglen wedi cynorthwyo gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol a hyrwyddo ymddiriedaeth a phartneriaeth. Mae cydlynwyr IRh arweiniol, ymarferwyr ac ysgolion yn gweithio'n dda ar lefel ranbarthol a lleol. Mae partneriaethau yn gynaliadwy ac yn cynorthwyo cydweithredu ehangach gydag IRh rhwng consortia rhanbarthol.

6.6 Mae Dyfodol Byd-eang wedi cynorthwyo cynnydd yn ansawdd ac amlder gwaith rhanbarthol i hyrwyddo a darparu IRh a mynediad estynedig i arbenigedd mewn prifysgolion a sefydliadau iaith. Mae hyn wedi caniatáu creu a rhannu arfer dysgu newydd a dulliau addysgeg, gan roi hwb i hyder ymarferwyr trwy gyfrwng cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae ansawdd yr adnoddau a baratowyd wedi cyfrannu at gynorthwyo addysgu a dysgu rhagorol IRh mewn rhai ysgolion ar draws Cymru, gan gyfrannu at nodau strategol y rhaglen.

**Argymhelliad 3:** Mae gwaith rhanbarthol wedi bod yn elfen lwyddiannus o Ddyfodol Byd-eang. Dylai'r rhaglen a fydd yn ei holynu ddatblygu'r dull gweithredu hwn, gan sicrhau y darparir adnoddau i gynnal a meithrin y partneriaethau sydd eisoes yn bodoli rhwng consortia rhanbarthol ac ysgolion.

6.7 Fodd bynnag, er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, mae cylch gwaith cyfyngedig y rhaglen wedi llesteirio effaith gyffredinol Dyfodol Byd-eang. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â rhoi sylw i'r materion systemig sy'n ymwneud â'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n dewis astudio IRh ar lefel uwchradd. Er bod Dyfodol Byd-eang yn darparu cymorth ac yn helpu i ddatblygu capasiti, nid yw'n rhoi gofynion ar ysgolion i ddarparu neu i gynyddu'r ddarpariaeth IRh.

6.8 Mae gwaith i ddadansoddi data gweinyddol yn datgelu bod y gostyngiad a welwyd ers tro yn narpariaeth ITM a'r niferoedd sy'n dewis eu hastudio, yn parhau. Mae nifer yr oriau sy'n cael eu treulio yn addysgu ITM mewn ysgolion uwchradd a chanol wedi parhau i ostwng, gan adlewyrchu gostyngiad yn nifer yr athrawon sy'n addysgu ITM. Cyn cyhoeddi'r cynllun Dyfodol Byd-eang cyntaf, roedd

cofrestriadau TGAU mewn ieithoedd wedi gostwng 44 y cant rhwng 2002 a 2015. Gwelwyd gostyngiad pellach o 42 y cant rhwng 2015 a 2021.

6.9 Felly, nid yw Dyfodol Byd-eang wedi atal y gostyngiad o ran y niferoedd sy'n dewis astudio IRh ar lefel TGAU a lefel A, ac nid yw wedi bod yn effeithiol wrth roi sylw i'r rhwystrau systemig sy'n atal disgyblion rhag dewis astudio IRh megis dewisiadau cul a'r diffyg dilyniant o ran cyfleoedd i'w hastudio ymhellach. Nid yw'r dirywiad parhaus hwn yn rhywbeth unigryw i Gymru, ac o ystyried cyfyngiadau cylch gwaith y rhaglen a nodwyd uchod, nid yw hwn yn ganlyniad annisgwyl.

6.10 Mae effaith lwyddiannus Dyfodol Byd-eang ar lefel gynradd yn amlygu'r diffyg cydlyniaeth o ran pontio a dilyniant i ddysgwyr IRh. Nid yw ysgolion uwchradd yn datblygu cynnydd ac uchelgais dysgwyr a sgiliau estynedig ymarferwyr ar y lefel gynradd ar hyn o bryd.

> **Argymhelliad 4:** Dylai'r rhaglen a fydd yn olynu Dyfodol Byd-eang ddatblygu'r gweithgarwch ar lefel gynradd, gan sicrhau gweithgareddau pontio wedi'u targedu a llwybrau dilyniant clir i'r cyfnod uwchradd.

6.11 Yn ogystal, adroddodd rhanddeiliaid am sialensiau parhaus o ran cyfle cyfartal, a bod dysgwyr mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol yn llai tebygol o ddewis astudio ieithoedd. Er ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o ysgolion, bernir nad oes gan Ddyfodol Byd-eang ddull gweithredu cyson a chydlynus er mwyn ymgysylltu â phob ysgol yng Nghymru.

> **Argymhelliad 5:** Dylai iteriad nesaf Dyfodol Byd-eang geisio ymgysylltu â'r holl ysgolion ar draws Cymru er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran y cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fanteisio ar gymorth.

6.12 Nid oedd rhanddeiliaid yn barnu bod y model presennol o ddarparu cyllid o un flwyddyn i'r llall i Ddyfodol Byd-eang yn caniatáu dull gweithredu cynaliadwy er mwyn hyrwyddo a datblygu IRh yn unol â nodau'r rhaglen. Adroddir bod hyder i ddarparu IRh ymhlith athrawon cynradd yn her allweddol arall a bydd gofyn cael dull gweithredu mwy cydlynus ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys ymwreiddio IRh o fewn AGA, er mwyn datblygu'r cynnydd a sicrhawyd.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynllun cyllido dros y tymor hwy ar gyfer strategaethau IRh yn y dyfodol, fel rhan o ddull gweithredu ar draws Cymru gyfan tuag at gynorthwyo IRh.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr AGA a rhanddeiliaid allweddol eraill i ystyried integreiddio IRh mewn addysg i athrawon.

6.13 Roedd rhanddeiliaid ac ymarferwyr yn barnu nad yw cymwysterau IRh yn addas i'r diben ar hyn o bryd, a cheir pryder ynghylch y cyfleoedd i ddysgwyr sicrhau dilyniant a gyrfaoedd sy'n gysylltiedig ag IRh. Mae grŵp llywio Dyfodol Byd-eang yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i roi sylw i hyn, trwy ailgynllunio cyrsiau TGAU IRh er mwyn ymgysylltu a chynorthwyo dysgwyr yn well trwy'r cwricwlwm newydd. Hwn yw'r math o gydweithio rhagweithiol y gall y grŵp ei arwain yn y dyfodol, os cynigir y ffordd iddo wneud hynny.

6.14 Mae'r gwaith o fonitro a gwerthuso effaith Dyfodol Byd-eang wedi bod yn anghyson ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg tystiolaeth gadarn ynghylch a yw'r rhaglen yn cyflawni ei nodau cyffredinol neu beidio. Ystyriwyd bod y diffyg cylch gorchwyl ar gyfer Dyfodol Byd-eang yn amharu ar ei photensial i fod yn dryloyw, i sicrhau cylch gwelliant parhaus ac i reoli prosiectau mewn ffordd effeithiol.

**Argymhelliad 8:** Yn gysylltiedig gyda'r gwaith o ddatblygu cylch gorchwyl newydd, dylai Llywodraeth Cymru a'r grŵp llywio weithredu prosesau monitro a gwerthuso newydd er mwyn dangos effaith a chynnydd y strategaeth IRh newydd.

### Cyfleoedd dan y cwricwlwm newydd

6.15 Ceir cyfleoedd i Lywodraeth Cymru sicrhau dull gweithredu integredig tuag at addysgu a dysgu IRh law yn llaw â Chymraeg a Saesneg. Gallai Dyfodol Byd-eang diwygiedig fod yn rhan o weithgarwch cynllunio dros y tymor hwy ar gyfer pob iaith yn y cwricwlwm newydd, fel rhan o MDPh ILlCh, yn ogystal â chysylltu ag amcanion Cymraeg 2050. Dylai'r broses hon gynnwys y cam o gynnwys cynrychiolwyr addysgu Cymraeg a Saesneg ac AGA yn y grŵp llywio a datblygu rôl Estyn mewn perthynas ag IRh.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws maes dysgu ieithoedd er mwyn datblygu dull gweithredu mwy integredig tuag at gynorthwyo addysgu a dysgu Cymraeg, Saesneg ac IRh.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn baratoi adroddiad thematig sy'n canolbwyntio ar IRh dan y trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd, er mwyn cynorthwyo arfer da a chanlyniadau dymunol. Byddai hyn yn cynnig gwaelodlin ar gyfer datblygu darpariaeth IRh bellach, yn gysylltiedig â Chymraeg a Saesneg.

# Atodiad A: Astudiaethau Achos

## Astudiaeth Achos 1

### Cefndir ac ymgysylltiad â Dyfodol Byd-eang

Mae hon yn ysgol uwchradd (11-18 oed) yn rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) sydd ar hyn o bryd yn cynnig Ffrangeg i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 i Safon Uwch ac Almaeneg i ddysgwyr o Flwyddyn 8 i fyny at Safon Uwch. Mae Blwyddyn 7 yn derbyn 3 awr o IRh bob pythefnos yn codi i 4 awr o Flwyddyn 8. Mae ymgysylltiad yr ysgol â Dyfodol Byd-eang yn cael ei gydlynu gan yr arweinydd IL.

### Gweithgareddau fel rhan o gynllun Ddyfodol Byd-eang

Mae'r ysgol wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o weithgareddau drwy gynllun Dyfodol Byd-eang. Mae'r rhain wedi cynnwys datblygu a chynnal gweithgareddau pontio gydag ysgolion cynradd lleol, gweithgareddau dysgu proffesiynol i staff, ymgysylltu â rhaglenni blaenllaw fel Llysgenhadon Llwybrau at Ieithoedd Cymru a Phrosiect Mentora Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae Dyfodol Byd-eang hefyd wedi cefnogi'r ysgol i ddatblygu rhwydweithiau a gweithgareddau newydd yn ogystal â rhannu adnoddau digidol gyda rhai o bartneriaid allweddol fel Cyngor Prydeinig Cymru, Goethe Institut ac Institut Français. Roedd adnoddau o'r Goethe Institut yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig: '*roeddent yn darparu cymorth ac adnoddau ymarferol iawn ar fanteision astudio Almaeneg. Roeddent yn canolbwyntio ar bontio, ymweliadau ysgol ym mlwyddyn 9, cysylltiadau â gyrfaoedd, adnoddau da i drefnu dosbarthiadau ychwanegol yn yr ysgol, gan helpu athrawon i hyrwyddo'r pwnc.*'

Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol o fewn y clwstwr rhanbarthol felly maent hefyd wedi arwain ar agweddau fel hyrwyddo cwrs Prifysgol Agored i athrawon cynradd, datblygu adnoddau IRh pellach ar gyfer ysgolion cynradd, a hyrwyddo lle IRh o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru fel rhan o gynllunio ysgolion. '*Mae Dyfodol Byd-eang wedi caniatáu i ni wneud llawer mwy gyda'r ysgolion cynradd ac wedi ysgogi mwy o barhad ac ymdrech.*'

### Effaith ar yr ysgol ac athrawon

Nododd yr arweinydd IRh fod Dyfodol Byd-eang wedi gwella sgiliau staff ysgolion er mwyn eu galluogi i gefnogi ac addysgu IL. Mae'r SLT wedi darparu amser a chefnogaeth ar gyfer ymgysylltu â dysgu proffesiynol Dyfodol Byd-eang ac fel ysgol arweiniol maent wedi lledaenu adnoddau ac wedi datblygu rhwydwaith o athrawon sy'n barod i gefnogi ei gilydd a rhannu arfer da. Mae'r adnoddau'n cynnwys fideos i gefnogi athrawon i integreiddio ieithoedd o fewn y cwricwlwm, enghreifftiau o arfer da wrth gynllunio unedau gwaith a thiwtorialau ar-lein. Dywedwyd bod y rhaglen fentora dan

arweiniad Prifysgol Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ond bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol arni'n ddiweddar.

*'Dangosodd fideos Llwybrau at Ieithoedd sut y gellir datblygu gyrfaoedd gan ddefnyddio IRh; maent wedi'u teilwra i'ch ysgol ac maent o ansawdd da iawn.'*

**Yr effaith ar ddysgwyr**

Mae dosbarthiadau meistr Safon Uwch a thiwtora chwim wedi bod yn arbennig o werthfawr i ddysgwyr, sydd wedi '*gwella hyder a dyheadau disgyblion Safon Uwch ac wedi datblygu eu sgiliau ar gyfer arholiadau.'* Ystyriwyd bod y rhain yn arbennig o werthfawr o ystyried costau cyflogi cynorthwywyr iaith, sydd bellach yn cael eu hystyried yn anfforddiadwy. Bu llai o ffocws ar gyfnodau allweddol 4 a 5 ac mae arweinydd IRh o'r farn y gallai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer cynllun Dyfodol Byd-eang diwygiedig.

Mae'r gweithgareddau pontio a'r adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd yn arwain at effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 7 ac 8. *'Maen nhw'n ddysgwyr hyderus ac yn gallu adnabod pwyntiau dysgu sy'n berthnasol i IRh yng nghynnwys gwersi Cymraeg a Saesneg hefyd. Mae'n ffordd newydd o ddysgu y gellir ei chefnogi ymhellach.'* Fodd bynnag, mae'r arweinydd yn nodi nad oes lefel sylfaenol gyffredin o hyd ar gyfer dysgwyr IRh ym mlwyddyn 7 ac felly mae'r cynllun dysgu yn dechrau o sero. '*Gallech fod yn dechrau ar lefelau uwch ond nid oes deialog cynradd-uwchradd fel sy'n digwydd, er enghraifft, mewn mathemateg ac felly mae angen ymgysylltu â'r UDRh i gynnal brwdfrydedd dysgwyr.'*

**Heriau a chyfleoedd at y dyfodol**

Er y gwelwyd amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol, nid oedd yr arweinydd IRh o'r farn bod Dyfodol Byd-eang wedi gwella proffil IRh ar lefel ysgol gyfan. Nodwyd bod cwricwlwm gorlawn yn CA4 a chau'r cwricwlwm yn CA5 yn ei gwneud yn anodd hyrwyddo'r pwnc. Ar gyfer yr arweinydd IRh oni bai bod ieithoedd yn cael eu blaenoriaethu byddant yn parhau i gael eu gwthio i'r ochr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymwyd y dylid caniatáu i ddosbarthiadau IRh gyda niferoedd bach o ddysgwyr gael eu cynnal. Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i nodi fel cyfle ond hefyd yn her.

*'Bydd y rhai sy'n frwdfrydig yn parhau gydag IRh ac mae DB yn gwneud gwaith gwych yn eu cefnogi. Fodd bynnag, ble mae'r cysondeb, nid yw pob ysgol yn croesawu IL, beth sy'n digwydd iddyn nhw? Dim ond pocedi o arfer da ydyw fel arall.'*

**Astudiaeth Achos 2**

**Cefndir ac ymgysylltiad â Dyfodol Byd-eang**

Mae'r ysgol yn ysgol gynradd yn rhanbarth GwE, sydd ar hyn o bryd yn cynnig Ffrangeg i ddysgwyr ym mlynyddoedd 3, 4 a 5 am 1 awr yr wythnos. Arweinir ymgysylltiad yr ysgol â Dyfodol Byd-eang gan y cydlynydd IRh. Gwahoddwyd yr unigolyn hwn i sefydlu clwb Ffrangeg yn 2015 ac yn sgil hwn, fe gymerodd yr ysgol rhan mewn menter ysgol arweiniol consortiwm addysg rhanbarthol ar gyfer IRh. Yn dilyn hwn, fe ddechreuodd yr arweinydd IRh addysgu Ffrangeg ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

*'Mae hyn wedi mynd o nerth i nerth – mae'r plant wrth eu boddau ac felly hefyd y rhieni.'*

**Gweithgareddau fel rhan o gynllun Ddyfodol Byd-eang**

Mae'r ysgol wedi elwa ar amrywiaeth o weithgareddau a gefnogir drwy DB gan gynnwys gweithgareddau dysgu proffesiynol fel gweithdai IRh i staff, cymorth i ddatblygu rhwydweithiau newydd ar draws eu rhanbarth, digwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd ymhlith dysgwyr a chreu a rhannu adnoddau digidol. Derbyniodd yr arweinydd IRh gyllid hefyd drwy DB i gynhyrchu adnoddau Ffrangeg ar gyfer gwefan GwE. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau, fideos ac ymarferion geirfa ar gyfer athrawon y rhanbarth.

**Effaith ar yr ysgol ac athrawon**

Amlinellodd yr arweinydd IRh fod Dyfodol Byd-eang wedi gwella sgiliau staff i allu cefnogi ac addysgu IRh. Mae'r arweinydd hefyd wedi cwblhau'r cwrs Prifysgol Agored yn llwyddiannus, a ariennir drwy Dyfodol Byd-eang. '*Roedd yr elfen addysgeg yn wych ac yn fanwl iawn - maen nhw'n awgrymu ymgolli'n wirioneddol yn y diwylliant, felly llawer o gemau a gweithgareddau.'* Mae Dyfodol Byd-eang wedi caniatáu iddi gysylltu ag athrawon eraill sy'n addysgu IRh ar draws y rhanbarth a Chymru. Mae ymarferwyr ysgol arweiniol yn rhannu profiadau a syniadau sy'n hwyluso cyflwyno a gwella addysgu IRh i gymuned ehangach.

*'Mae'n braf peidio â bod ar ein pennau ein hunain ac rydym yn gweithio gydag athrawon eraill, gan eu hannog i ddweud 'Byddaf yn dysgu gyda chi' wrth y disgyblion.'*

**Effaith ar ddysgwyr**

Ystyrir bod Tide 360 a Power Languages yn adnoddau da ac fe'u cyflwynwyd i'r ysgol drwy arweinydd IRh y rhanbarth. Mae'r adnoddau'n darparu datganiadau cynnydd, asesiadau wedi'u monitro a gweithgareddau llafaredd a llwybrau dilyniant. Mae'r arweinydd IRh yn dweud eu bod hefyd yn dyfeisio gemau gyda'r dysgwyr i sicrhau bod dysgu ieithoedd yn hwyl. Mae'r ysgol wedi datblygu gweithgarwch trawsgwricwlaidd sy'n cysylltu IRh ag iechyd a lles, celf, llythrennedd a sgiliau gwrando. Mae dysgwyr hefyd yn cael eu trochi yn niwylliant Ffrainc drwy hanes a chwaraeon.

*'Mae'n hyfryd gweld sut mae pob grŵp oedran gwahanol yn ymateb – maen nhw eisiau dysgu ac maen nhw'n helpu i gynllunio'r gwersi, gan roi eu syniadau. Mae dilyniant naturiol yn elfen allweddol o'r hyn a wnawn – mae gan blant agwedd wych at Ffrangeg ac maent bob amser yn edrych ymlaen at yr her nesaf.* '

**Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol**

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i barhau i gefnogi IRh ac mae'r arweinydd ar hyn o bryd yn gweithio gydag eraill yn yr ysgol i sicrhau dull cyffredin o ddysgu iaith ar draws grwpiau blwyddyn a fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mwy o IL. Mae'r cyfnod sylfaen hefyd yn cymryd rhan erbyn hyn.

Fel ysgol glwstwr arweiniol, mae'r ysgol yn darparu adnoddau, cynnwys a chyngor i ysgolion eraill ar draws y rhwydwaith. Mae'r arweinydd IRh hefyd yn cynhyrchu gweminarau ar gyfer y clwstwr ac yn cyfrannu at werthuso adnoddau. Un her allweddol i'r ysgol a'r clwstwr ehangach fynd i'r afael â hi yw *'gall rhai dysgwyr fynd yn ôl wrth bontio i'r ysgol uwchradd gan nad yw dysgwyr i gyd ar yr un lefel. Dylent fod yn ystyried ffrydio plant pan fyddant yn mynd i'r ysgol uwchradd er mwyn adeiladu ar eu cynnydd IRh.'*

## Astudiaeth Achos 3

**Cefndir ac ymgysylltiad â Dyfodol Byd-eang**

Ysgol uwchradd yw hon (ysgol i ddysgwyr 11-16 oed) yn rhanbarth GwE sydd ar hyn o bryd yn cynnig Ffrangeg i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7 i 11. Mae Blwyddyn 7 yn derbyn 3 awr IRh bob pythefnos, yn debyg i bynciau eraill nad ydynt yn bynciau craidd. Cyn COVID, cynigiwyd clwb Rwsieg yn ystod amser cinio hefyd. Arweinir ymgysylltiad yr ysgol â Dyfodol Byd-eang gan yr arweinydd IRh. Cynigir cyfle i bob disgybl mwy abl a thalentog sefyll y TGAU yn eu mamiaith (lle bo ar gael) sydd ar hyn o bryd yn cynnwys siaradwyr Arabeg, Bwlgareg, Portiwgaleg, Pwyleg, Rwmaneg, Twrceg, Bengali, Sbaeneg a Rwsieg.

**Gweithgareddau fel rhan o gynllun Ddyfodol Byd-eang**

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a gefnogir drwy gynllun Dyfodol Byd-eang. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithgareddau dysgu proffesiynol i staff, rhannu adnoddau, mynychu cynadleddau rhanbarthol e.e. cefnogi dysgwyr mwy galluog a thalentog, gweithgareddau pontio ac ymgysylltu â rhaglenni blaenllaw fel Llysgenhadon Iaith Llwybrau at Ieithoedd Cymru a Phrosiect Mentora Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Nododd yr Arweinydd IRh bod amrywiaeth o '*syniadau ac adnoddau defnyddiol'* wedi deillio o'r gweithgareddau hyn ond tynnodd sylw at ddiffyg amser ac adnoddau i ymgysylltu'n llawn.

*'Byddai'n dda iawn gweld rhai digwyddiadau'n cael eu cynnal yn nes at adref - e.e. mewn ysgolion yn ardaloedd Sir y Fflint / Wrecsam neu ym Mhrifysgol Glyndŵr - er mwyn caniatáu i ysgolion o ogledd ddwyrain Cymru gael gwell mynediad.'*

**Effaith ar yr ysgol ac athrawon**

Dywedodd yr Arweinydd IRh fod Dyfodol Byd-eang wedi arwain at bartneriaethau newydd rhwng yr ysgol ac eraill i gefnogi dysgu ieithoedd a gwella profiadau dysgwyr. Mae athrawon IRh wedi mynychu gweithgareddau a gweithdai dysgu proffesiynol a drefnwyd gan y consortiwm ac mae arweinyddion IRh gwahanol ysgolion ar draws y rhanbarth wedi cyfarfod nifer o weithiau. Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi bod yn 'dda' ac wedi'u croesawu gan staff, gan roi syniadau newydd iddynt i wella eu sgiliau addysgu a datblygu adnoddau. Dywedir hefyd bod Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth o IRh yn yr ysgol.

**Yr effaith ar ddysgwyr**

Nododd yr arweinydd IRh fod dysgwyr sydd wedi ymgysylltu â digwyddiadau Dyfodol Byd-eang wedi ymateb yn gadarnhaol ac i rai mae wedi atgyfnerthu penderfyniadau dysgwyr i barhau i astudio ieithoedd fel pwnc TGAU. Mae gweithgareddau sy'n cynnwys dysgwyr MATh hefyd wedi caniatáu iddynt weithio ar draws gwahanol ieithoedd. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio i gefnogi syniadau ar gyfer llwybrau gyrfaoedd ar gyfer IRh gan ddefnyddio gwefan Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS). Ystyriwyd bod angen cymorth pellach, fodd bynnag, wrth gynllunio cwricwlwm CA3 i greu *'effaith barhaol'* ar gyfer ieithoedd yn yr ysgol. Nododd yr Arweinydd IL hefyd y bu llai o effaith ar ddysgwyr sydd wedi dadrithio a'i bod yn parhau i fod yn her i ymgysylltu â'r grwpiau hyn drwy'r adnoddau presennol.

**Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol**

Hoffai'r Arweinydd IRh dderbyn negeseuon cliriach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r angen economaidd a gwleidyddol am gefnogaeth i ieithoedd. Gan adeiladu ar y galw am fwy o ffocws ar adnoddau CA3, galwodd yr arweinydd IRh am fynediad i *'ddeunyddiau dilys sy'n briodol yn ieithyddol ac yn emosiynol i ddysgwyr blwyddyn 7'*. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi cyfnewidiadau trafodol, chwarae rôl, sgyrsiau, sydd i gyd yn cysylltu â dull mwy ymarferol a diddorol o ddysgu iaith. Mae angen rhoi mwy o sylw hefyd i yrfaoedd a chysylltiadau â chyflogwyr i gefnogi'r rhai nad oes ganddynt hyder yn eu gallu i barhau i astudio IRh. Galwodd yr Arweinydd IL hefyd am fwy o eglurder ynghylch y Cwricwlwm newydd i Gymru a dyfodol cymwysterau IRh.

*'Rydym yn teimlo'n ansicr iawn o sut olwg fydd ar y cwricwlwm newydd ar gyfer ieithoedd, ac yn ansicr iawn o faint y mae gwir angen i ni ei newid. Mae gwir angen i ni wybod beth yw'r cynlluniau ar gyfer CA4 / TGAU fel ein bod yn gwybod beth rydym yn*

*anelu ato yn y tymor hir a ble i roi'r cydbwysedd.'*

## Astudiaeth achos 4

### Cefndir ac ymgysylltiad â Dyfodol Byd-eang

Mae'r ysgol yn ysgol gynradd wledig fach yn rhanbarth GwE gyda grwpiau blwyddyn cymysg yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarthiadau ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, dan arweiniad y pennaeth. Mae'r ysgol wedi cynyddu ei darpariaeth IRh yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddefnyddio'r gefnogaeth gan y consortiwm rhanbarthol. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar integreiddio dysgu ieithoedd fel rhan 'hwylus' o gyflwyno'r cwricwlwm. Fel yr adroddodd y pennaeth,

> *"Rydyn ni eisiau i blant fwynhau ieithoedd, cael eu cyffroi a'u hysgogi a gwerthfawrogi amrywiaeth. Drwy ddysgu geiriau mewn ieithoedd eraill, mae hyn hefyd yn eu hannog i feddwl yn ddyfnach am y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyfoethogi eu sgiliau llythrennedd yn fwy cyffredinol"*

Rhoddwyd anogaeth a syniadau i'r ysgol ar sut i gyflwyno ieithoedd gan y consortiwm rhanbarthol, fel rhan o'r rhaglen Dyfodol Byd-eang. Mae arweinydd IRh y consortiwm wedi cyflwyno syniadau i ysgolion cynradd yn y rhanbarth ar sut i ddefnyddio ieithoedd mewn gwersi celf ac addysg gorfforol. Mae'r ysgol bellach yn rhan o grŵp o ysgolion cynradd sydd wedi gweithio gyda'r consortiwm i ddatblygu 'pecyn cychwynnol' wedi'i anelu at ysgolion cynradd sydd newydd ddechrau cynllunio eu darpariaeth IRh ac sy'n chwilio am syniadau ac adnoddau.

Mae'r pennaeth yn credu bod angen anogaeth bellach ar ysgolion ond gall '*mynediad at gymorth ac adnoddau roi hyder iddynt roi cynnig ar bethau newydd.'*

### Gweithgareddau fel rhan o gynllun Ddyfodol Byd-eang

Mae'r ysgol yn cyflwyno ieithoedd mewn dwy ffordd. Yn gyntaf: drwy gemau a gweithgareddau sy'n cael eu chwarae'n rheolaidd yn y dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys caneuon sy'n addysgu plant i gyfri, dysgu lliwiau a misoedd y flwyddyn yn Ffrangeg; bingo, wedi'i chwarae i atgyfnerthu geirfa rhif a lliw; cyfarchion ac ymadroddion syml i fynegi emosiynau – sy'n cael eu harddangos yn yr ystafell ddosbarth. Yn ail, cyflwynir Ffrangeg fel rhan o bwnc pob tymor.

> *'Mae gennym bwnc newydd bob tymor - yn ystod pob tymor rydym yn cyflwyno 6 gair yn Ffrangeg ac yn eu defnyddio fel rhan o'r thema. Mae thema'r tymor hwn yn ymwneud â'r corff dynol a ffyrdd iach o fyw. Rydym wedi dysgu'r plant sut i ddweud chwe ffrwyth yn Ffrangeg. Maent eisoes yn gwybod sut i gyfrif a sut i ddweud 'je voudrais' ac 's'il vous*

*plaît'. Felly maen nhw'n teimlo'n falch iawn pan fyddan nhw'n sylweddoli'n sydyn eu bod nhw'n gallu ffurfio brawddegau.'*

Rhoddwyd copi i bob ysgol gynradd yng Nghymru o'r Geiriaduron Lluniau i Blant sy'n dwyn ynghyd geirfa ddefnyddiol mewn pum iaith: Cymraeg, Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg ac Almaeneg. Mae'r geiriadur hwn yn cynnwys geiriau sy'n gysylltiedig â theulu, y corff dynol, dillad, bwyd, planhigion, ein planed, trafnidiaeth, tai, ysgol, swyddi a chwaraeon.

**Yr effaith ar ddysgwyr**

Eglurodd y pennaeth – sydd hefyd yn dysgu grŵp blwyddyn cymysg gyda phlant o flynyddoedd 3-6 – y gall darparu profiadau cynnar o aml-ieithrwydd helpu i chwalu'r mythau bod ieithoedd yn anodd. Nododd y pennaeth am flynyddoedd lawer IRh oedd yr unig bwnc nad oedd gan ddysgwyr Blwyddyn 7 unrhyw brofiad ohono cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd.

*"Mae plant yn derbyn profiad o ddysgu wyddoniaeth, daearyddiaeth, celf, cerddoriaeth, drama yn yr ysgol gynradd. Mae'n deg eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn ieithoedd rhyngwladol cyn iddynt symud i addysg uwchradd."*

Roedd y pennaeth hefyd yn myfyrio ar fanteision grwpiau blwyddyn cymysg mewn amgylchedd ysgol fach.

*"Pan fyddwn ni'n chwarae gemau gan ddefnyddio ieithoedd, mae'r plant hŷn yn arwain y ffordd o ran hyfforddi a helpu'r plant iau. Mae'n braf gweld y balchder maen nhw'n ei gymryd wrth allu defnyddio geirfa a helpu dysgwyr iau. Rydym yn aml yn eu rhoi mewn timau ar gyfer gemau fel bod dysgwyr hŷn yn hyfforddi ac yn cefnogi'r plant iau."*

# Atodiad B: Gwerthuso Dyfodol Byd-eang: holiadur ysgolion

**Cefndir**

1. Enw'r ysgol [gofynnol, testun agored]

2. Eich rôl yn yr ysgol [dewisiadau]

3. Eich enw [testun agored, cwestiwn dewisol]

4. Pa un o'r canlynol yw eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Ysgol gynradd | |
| Ysgol uwchradd | |
| Ysgol arbennig | |
| UCD | |
| Ysgol ganol (ysgol 3-16, 3-18) | |
| Nid wyf yn gweithio mewn ysgol | |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | |

5. Ym mha awdurdod lleol y mae eich ysgol? [rhestr o ddewisiadau]

## Adran 1. Darpariaeth ieithoedd rhyngwladol cyfredol

[Ffiltr – ysgolion cynradd, ysgolion canol]

**6. Pa ieithoedd rhyngwladol ydych chi'n eu haddysgu fel rhan o'r cwricwlwm? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

| | Cyfnod Sylfaen | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | | | | | |
| Sbaeneg | | | | | |
| Almaeneg | | | | | |
| Eidaleg | | | | | |
| Eraill e.e. ieithoedd cymunedol (nodwch pa ieithoedd) | | | | | |

**7. Faint o oriau o ieithoedd rhyngwladol sy'n cael eu haddysgu yn eich ysgol bob wythnos? (Os ydych chi'n addysgu mwy nag un iaith ryngwladol, atebwch ar gyfer bob un os gwelwch yn dda)**

| | Nifer yr oriau |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | ☐ |
| Blwyddyn 3 | ☐ |
| Blwyddyn 4 | ☐ |
| Blwyddyn 5 | ☐ |
| Blwyddyn 6 | ☐ |

Os ydych yn dymuno, nodwch rhagor o wybodaeth ar eich darpariaeth.

☐

**8. Pa ieithoedd rhyngwladol ydych chi'n eu haddysgu yn eich ysgol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

| | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | TGAU | Safon-A |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sbaeneg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Almaeneg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Eidaleg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mandarin | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Eraill e.e. ieithoedd cymunedol (nodwch os gwelwch yn dda)

☐

**9. Sawl awr o ieithoedd rhyngwladol y mae dysgwyr Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 eich ysgol yn derbyn bob wythnos / bob pythefnos (yn dibynnu ar drefniadau amserlen eich ysgol)?**

Nodwch nifer yr oriau bob wythnos / bob pythefnos (e.e. 2 awr bob wythnos / 3 awr bob pythefnos)

☐

**10. Ydy eich ysgol yn cynnig unrhyw brofiadau eraill yn ymwneud â dysgu ieithoedd? (e.e. clybiau iaith, partneriaethau gydag ysgolion rhyngwladol, tripiau)**

**12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n deall nodau ac amcanion Dyfodol Byd-eang a'r math o weithgareddau y mae'n cefnogi. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n ymwybodol o arfer dda wrth weithredu Dyfodol Byd-eang mewn ysgolion/rhanbarthau eraill. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae Dyfodol Byd-eang wedi gwella sgiliau ymysg staff fy ysgol i'w galluogi i addysgu ieithoedd rhyngwladol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw wybodaeth bellach neu enghreifftiau i gefnogi'ch atebion.

**13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae Dyfodol Byd-eang wedi codi proffil ieithoedd rhyngwladol ar lefel ysgol-gyfan. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae Dyfodol Byd-eang wedi gwella'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol i hyrwyddo ieithoedd. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae Dyfodol Byd-eang wedi creu partneriaethau newydd rhwng yr ysgol ac eraill i gefnogi ieithoedd a gwella profiadau dysgwyr. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae Dyfodol Byd-eang wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ieithoedd rhyngwladol yn fy ysgol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n deall effaith gweithgareddau Dyfodol Byd-eang a dysgu ieithoedd rhyngwladol ar ddysgwyr. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw wybodaeth bellach neu enghreifftiau i gefnogi'ch atebion

**14. Mae Dyfodol Byd-eang wedi gweithio ar ei orau neu wedi cael yr effaith fwyaf pan....**

**15. Y brif her wrth hyrwyddo a chynyddu dysgu ieithoedd rhyngwladol yn ein hysgol ni yw...**

**16. Oes unrhyw fylchau yn y gefnogaeth sydd ar gael trwy strategaeth Dyfodol Byd-eang?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Ddim yn gwybod

Os 'Oes', nodwch yn gryno beth yw'r bylchau hyn.

## Adran 3: Ieithoedd rhyngwladol fel rhan o Gwricwlwm i Gymru (CiG)

**17. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau isod?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn cynnig rhagor o gyfleoedd i gefnogi dysgu ieithoedd rhyngwladol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n deall y weledigaeth ar gyfer dysgu ieithoedd o fewn Cwricwlwm i Gymru a'r hyn fydd yn newydd fel rhan o'r maes dysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n gweithio gydag eraill o fewn yr ysgol i sicrhau dull cyffredin ac amlieithog o gefnogi dysgu ieithoedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gael i mi / fy staff i fedru addysgu ieithoedd o fewn y cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gen i / mae gan fy staff yr adnoddau sydd eu hangen i addysgu ieithoedd o fewn y cwricwlwm newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi'ch atebion

**18. Oes angen cefnogaeth bellach arnoch chi i gynllunio ieithoedd rhyngwladol fel rhan o gwricwlwm newydd eich ysgol?**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod

Os 'Oes', nodwch pa gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.

# Atodiad C: Gwerthusiad Dyfodol Byd-eang: canllaw cyfweliadau â rhanddeiliaid

**Adran 1: Trosolwg o nodau'r gwerthusiad a chyflwyniad**

- Ymchwilio i ymwybyddiaeth o Ddyfodol Byd-eang ac ymwneud â'r cynllun; cefndir eu sefydliad

**Adran 2: Barn ar ddyluniad a gweithrediad y cynllun**

- I ba raddau y mae Dyfodol Byd-eang wedi'i alinio â / yn cefnogi diwygiadau addysg yng Nghymru?
    - A yw Dyfodol Byd-eang yn llenwi bwlch neu'n cynnig dull newydd o gefnogi addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol?
- Pa mor effeithiol y mae'r rhaglen wedi'i chynllunio?
    - A yw'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir?
    - A yw'n targedu adnoddau a chymorth yn briodol?
- Pa mor effeithiol y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol?
- Pa mor effeithiol yw Grwp Llywio'r rhaglen?

**Adran 3: Effaith Dyfodol Byd-eang ar y system addysg yng Nghymru**

- A yw wedi cyfrannu at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector?
- A yw wedi darparu canllawiau, egwyddorion a chodi ymwybyddiaeth clir i bob sector i gefnogi amlieithrwydd mewn ysgolion yng Nghymru?
- A yw wedi cyfrannu at gefnogi addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol rhagorol i bob dysgwr?
- A yw wedi cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau/partneriaethau newydd i gefnogi darpariaeth iaith ryngwladol?
- Sut mae'n ategu polisi presennol Llywodraeth Cymru e.e. strategaeth ryngwladol?
- A fu unrhyw rwystrau i gyflawni nodau Dyfodol Byd-eang?

**Adran 4: Dyfodol y rhaglen**

- Pa elfennau o Ddyfodol Byd-eang y dylid eu cynnal/adeiladu ymhellach er mwyn cefnogi darpariaeth ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion?

- Sut y gall unrhyw raglen yn y dyfodol gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu?
- Pa heriau a chyfleoedd ychwanegol y dylai rhaglenni'r dyfodol fod yn ceisio mynd i'r afael â hwy?
- Ai Dyfodol Byd-eang yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r heriau hyn? Os na, pam na, a pha newidiadau y dylid eu gwneud?